# Y Diploma Mynediad i Addysg Uwch Rhyngwladol

## Ymgynghoriad ar y trefniadau ar gyfer trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch sy'n gweithredu'n rhyngwladol

Mehefin 2025

# Cynnwys


Y Diploma Mynediad i Addysg Uwch Rhyngwladol ........................... 1

Cyflwyniad ........................................................................................ 1

Y cyd-destun ........................................................................................ 1

Datganiad safbwynt yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch ........................ 2

Crynodeb o'r gweithgareddau a wnaethpwyd yn ystod 2021-25........................................ 3

Yr ymgynghoriad cyhoeddus blaenorol a'r camau nesaf........................................ 5

Diffinio rôl a nod y Diploma MiAU Rhyngwladol ................................ 7

Diffiniad o'r Diploma MiAU Rhyngwladol a'i nod ........................................ 7

Y cwestiynau ymgynghorol........................................................................ 8

Y trefniadau i Asiantaethau DMiAU sy'n mynd i Gytundeb Trwyddedu ar gyfer y Diploma Rhyngwladol.................................... 9

Cymryd rhan yng ngham peilot y Diploma MiAU Rhyngwladol ........................................ 9

Y cymhwysedd i gael trwydded Asiantaeth DMiAU ryngwladol........................................ 10

Gwneud cais am drwydded ar gyfer y Diploma MiAU Rhyngwladol .................................. 11

Y ffioedd ar gyfer gwneud cais a'r ffioedd gweinyddol blynyddol ........................................ 16

Y cwestiynau ymgynghorol........................................................................ 16

Y trefniadau ar gyfer cynnal trwydded Asiantaeth DMiAU ar gyfer y Diploma Rhyngwladol......................................................... 18

Cymhwyso'r Trefniadau Trwyddedu i'r Diploma MiAU Rhyngwladol ........................................ 19

Cymhwyso'r Amodau Mynediad i AU i'r Diploma MiAU Rhyngwladol ................................ 20

Cymhwyso'r Trefniadau Monitro i'r Diploma MiAU Rhyngwladol........................................ 23

Cymhwyso'r ymyriadau rheoleiddio i'r Diploma MiAU Rhyngwladol ................................ 25

Y cwestiynau ymgynghorol........................................................................ 26

Arferion addysgu, dysgu ac asesu'r Diploma MiAU Rhyngwladol . 28

Cydraddoldeb â chymwysterau lefel 3 yn y DU........................................ 28

Gofynion o ran y Saesneg........................................................................ 29

Dysgu cyfunol........................................................................................ 30

Cymhwyso Manyleb y Diploma i'r Diploma MiAU Rhyngwladol ........................................ 31

Cymhwyso'r Cynllun Graddio i'r Diploma MiAU Rhyngwladol........................................ 32

Y cwestiynau ymgynghorol........................................................................ 32

Marchnata'r Diploma MiAU Rhyngwladol ........................................ 34

Cymhwyso'r Nodau Cydymffurfiad â'r Disgrifwyr Pwnc i'r Diploma MiAU Rhyngwladol........ 34

Cymhwyso'r Nodau Masnach i'r Diploma MiAU Rhyngwladol ........................................ 35

Y cwestiynau ymgynghorol ........ 36

**Trefniadau pontio a gweithredu ........ 37**

Trosolwg o'r cyfnod peilot ........ 37

Y camau nesaf ar ôl y cyfnod peilot ........ 37

Y cwestiwn ymgynghorol ........ 38

Y casgliad ........ 38

**Atodiadau ........ 39**

Atodiad A: Rhagolwg o gwestiynau'r arolwg ymgynghori ........ 39

Atodiad B: Y Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau DMiAU sy'n Gweithredu'n Rhyngwladol ........ 41

Cyflwyniad ........ 41

Telerau Safonol y Drwydded ........ 42

Hunaniaeth, cyfansoddiad a threfniadau llywodraethu ........ 42

Telerau'r cytundeb ........ 43

Diffyg cydymffurfiad ........ 44

Atodiad C: Meysydd arfaethedig ar gyfer casglu data ........ 46

# Cyflwyniad

## Y cyd-destun

1 Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) yn gyfrifol am reoleiddio'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch (y 'Diploma MiAU'). Mae Cynllun Cydnabod QAA ar gyfer Mynediad i AU ('y Cynllun Cydnabod') yn darparu'r fframwaith rheoleiddio y mae QAA yn ei ddefnyddio i gyflawni'r cyfrifoldeb hwn. O dan y fframwaith hwn, mae QAA yn awdurdodi sefydliadau i ddatblygu, dilysu, cymeradwyo a dyfarnu Diplomâu Mynediad i AU. Yr enw a roddir ar sefydliad sydd wedi ei awdurdodi gan QAA at y dibenion hyn yw Asiantaeth Dilysu Mynediad i Addysg Uwch ('Asiantaeth DMiAU').

2 Mae'r Cynllun Cydnabod yn cynnwys y *'Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch'* a'r *'Amodau Mynediad i AU'*. Mae'r Amodau'n cynnwys cyfeiriadau at ofynion, disgwyliadau a threfniadau sydd wedi eu nodi mewn dogfennau rheoleiddiol eraill (y 'Dogfennau Rheoleiddiol'). Mae'r rhain yn cynnwys y trefniadau trwyddedu, y trefniadau monitro, y gofynion o ran y cymhwyster, a'r canllawiau. Rydym yn cynnig newidiadau i'r Cynllun Cydnabod er mwyn cwmpasu'r ddarpariaeth ryngwladol drwy gyflwyno Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol (Diploma MiAU Rhyngwladol).

3 Datblygwyd y cynigion am Ddiploma MiAU Rhyngwladol sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn mewn ymateb i'r awydd a nodwyd gan nifer o Asiantaethau DMiAU i allu cynnig y Diploma y tu hwnt i'r cyfyngiadau daearyddol cyfredol. Mae'n cyfateb ag awydd QAA i gefnogi cynaladwyedd y Diploma, ac mae'n unol â'i bwriad o ehangu ei gweithgarwch rhyngwladol ymhellach, gan fanteisio ar enw da rhagorol QAA ac addysg uwch y DU drwy'r byd i gyd mewn meysydd newydd er budd addysg drydyddol y DU. Felly, mae cyflwyniad Diploma MiAU Rhyngwladol yn cyd-fynd ag uchelgais masnachol nifer o Asiantaethau DMiAU, y mae rhai ohonynt yn gweithredu'n rhyngwladol yn barod ac sydd eisiau chwilio am gyfleoedd i ddatblygu marchnadoedd y tu allan i'r DU.

4 Mae'r ymgynghoriad hwn yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus cychwynnol a gynhaliwyd yn 2024 ar newidiadau i'r Cynllun Cydnabod, ac y rhannwyd ei ganlyniad ag Asiantaethau DMiAU a rhanddeiliaid eraill ym mis Mai 2025[1]. Mae crynodeb a dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw i'w gweld o fewn y sylwadau hyn, ac yn gyfamserol â'r sylwadau hyn, ar gyfer pob adran berthnasol.

5 Er bod yr ymgynghoriad cychwynnol wedi sicrhau ymatebion gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys Asiantaethau DMiAU, darparwyr, eu staff academaidd a'u haseswyr, i sefydlu'r egwyddorion eang ar gyfer cyflwyno Diploma MiAU Rhyngwladol, mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio adborth am fanylion penodol y trefniadau trwyddedu a monitro ar gyfer Asiantaethau DMiAU sydd eisiau gweithredu'n rhyngwladol. Rydym yn croesawu adborth gan yr holl randdeiliaid sydd â diddordeb, gan gynnwys Asiantaethau DMiAU, darparwyr Mynediad i AU, a llunwyr polisïau ac ymarferwyr sydd â chylch gwaith rhyngwladol.

6 Bydd yr ymgynghoriad hwn yn agored am bum wythnos a bydd yn gorffen am 17:00 ar 6 Gorffennaf 2025. Dylid cyflwyno atebion drwy gwblhau ein harolwg ar-lein. Cyflwynir y cwestiynau i dderbyn ystyriaeth ar ddiwedd bob adran o'r ddogfen ymgynghori hon fel bod modd eu hystyried ochr yn ochr â'r manylion perthnasol. Mae'r gyfres gyflawn o gwestiynau wedi ei hailadrodd yn Atodiad A.

7 Ar ôl cau'r ymgynghoriad, byddwn yn ystyried yr ymatebion i gyd, ac yn gwneud newidiadau i'n cynigion os byddwn yn ystyried bod rheswm clir i wneud hynny. Ein bwriad yw hyn: unwaith y bydd Asiantaethau DMiAU wedi cael eu haildrwyddredu a'u trosglwyddo'n llwyr i'r

[1] https://forms.office.com/e/WuEAu6BK7B

trefniadau newydd ar gyfer y DU, dylent allu gwneud cais, yn ystod blwyddyn academaidd 2025-26, am drwydded i dreialu'r ddarpariaeth Diploma MiAU Rhyngwladol mewn gwlad benodol, neu am nifer o drwyddedau ar gyfer mwy nag un wlad.

8 Nod y ddogfen hon yw rhoi manylion penodol am y Cynllun Cydnabod a sut i'w defnyddio ar gyfer y Diploma MiAU Rhyngwladol. Mae natur sylfaenol y Cynllun Cydnabod yn golygu bod yn rhaid cymeradwyo unrhyw newidiadau i'r Cynllun Cydnabod gan Fwrdd QAA. Bydd yr ymatebion a roddir gan Asiantaethau DMiAU i'r ymarfer ymgynghori hwn yn helpu QAA i benderfynu beth yw'r gofynion ychwanegol y mae'n rhaid eu cyflwyno i'w cymeradwyo gan y Bwrdd QAA er mwyn cefnogi cyflwyno'r Diploma MiAU Rhyngwladol. Mae'r canllawiau'n rhoi rhagor o gyngor ar sut i ddehongli a bodloni gofynion y Cynllun Cydnabod. Nid ydynt yn gofyn cael eu cymeradwyo gan Fwrdd QAA ac felly maen nhw'n caniatáu'r hyblygrwydd i gael eu diweddaru'n barhaus i gefnogi Asiantaethau DMiAU yn effeithiol. Mewn mannau, mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cyfeirio at ganllawiau a fydd yn cael eu rhannu gydag Asiantaethau DMiAU yn ddiweddarach. Er ein bod yn cydnabod y byddai canllawiau o'r fath yn helpu i egluro ac esbonio gweithrediad y Diploma MiAU Rhyngwladol, ni fyddai'n ymarferol nac yn briodol i gyhoeddi canllawiau drafft sy'n tybio o flaen llaw beth fydd canlyniad yr ymgynghoriad hwn.

9 Dylid darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â'r dogfennau a ganlyn:

9.1 *Y Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch* - mae'r ddogfen hon yn disgrifio telerau'r Cytundeb Trwyddedu i Asiantaethau DMiAU a'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer dod yn Asiantaeth DMiAU a chynnal trwydded Asiantaeth DMiAU. Yn y ddogfen hon, rydym yn disgrifio telerau ychwanegol y mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU sydd eisiau gweithredu y tu allan i'r DU gytuno iddynt. Byddwn yn cyfeirio atynt fel *Y Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch sy'n Gweithredu'n Rhyngwladol.*

9.2 *Yr Amodau Mynediad i Addysg Uwch* - dyma'r amodau y mae'n rhaid i Asiantaeth DMiAU barhau i'w bodloni wedi iddi lwyddo i gael ei thrwydded Asiantaeth DMiAU. Mae'n rhaid i sefydliad sydd eisiau dod yn Asiantaeth DMiAU ddangos sut mae'n bodloni, neu sut y gallai fodloni, yr amodau hyn. Rydym yn cynnig addasiadau i'r amodau ar gyfer Asiantaethau DMiAU sy'n gweithredu'n rhyngwladol.

10 Mae croeso i chi anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r ymgynghoriad at ahe@qaa.ac.uk.

## Datganiad safbwynt yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch

11 Mae QAA wedi ei hymrwymo i archwilio'r ffordd orau o lansio'r Diploma MiAU Rhyngwladol, ac rydym yn bwriadu alinio'r gweithgareddau hyn ag un o brif feysydd ffocws ein strategaeth gyhoeddedig - *"Ehangu ein gweithgarwch rhyngwladol, gan fanteisio ar enw da rhagorol QAA ac addysg uwch y DU drwy'r byd i gyd mewn meysydd newydd er budd addysg drydyddol y DU"*[2].

12 Mae ein gwaith yn ategu ein cenhadaeth i ddiogelu safonau a gwella addysg drydyddol y DU, lle bynnag y mae'n cael ei darparu ledled y byd. Rydym yn gweithio gyda llywodraethau, asiantaethau a sefydliadau drwy'r byd i gyd er budd addysg drydyddol y DU a'i henw da'n rhyngwladol.

13 Mae gan QAA statws sefydledig a chydnabyddedig fel arbenigwr byd mewn sicrhau ansawdd yn y sector addysg drydyddol, ac mae hyn yn golygu ein bod mewn sefyllfa dda i sicrhau bod y cymhwyster Mynediad i AU yn parhau'n berthnasol ac i gefnogi ei dwf, tra

[2] www.qaa.ac.uk/cy/amdanom-ni/strategaeth-qaa-2023-27

hefyd yn cynnal ansawdd a safonau uchel. Yn arbennig, rydym yn ceisio sicrhau bod y dysgwyr sy'n cwblhau'r cymhwyster unigryw hwn mewn safle da i sicrhau lle ar gwrs astudio lefel uwch a gynigir gan ddarparwr yn y DU, os dymunant (yn y DU neu o dan drefniant trawswladol) neu gan ddarparwr sy'n gweithredu'n rhyngwladol.

14 Yn y DU, rydym yn sicrhau y cynhelir diogelwch a chadernid y trefniadau ar gyfer dyfarnu'r Diploma Mynediad i AU, a bydd hon yn elfen bwysig o'n gwaith wrth i'r Diploma MiAU Rhyngwladol gydio. Mae QAA yn dal i fod yn ymwybodol o'r risgiau sylweddol a chymhleth sy'n gysylltiedig â datblygu a darparu fersiwn rhyngwladol o unrhyw gymhwyster, yn cynnwys y Diploma Mynediad i AU, ac mae'n rhybuddio yn erbyn brysio i'w ddarparu. Prif nod ein gwaith o reoleiddio'r cymhwyster yw diogelu buddiannau'r myfyrwyr a'r cymhwyster ei hun.

15 Rydym yn monitro Asiantaethau DMiAU yn rhan o'n cyfrifoldebau rheoleiddio am y Diploma, ac er mwyn lleihau risgiau a hyrwyddo'r arfer gorau. Fel y nodwyd yn nodau elusennol QAA, un o nodau ein dull rheoleiddio yw rhoi cyngor (a sicrwydd, yn y pen draw) i'r llywodraethau i'w caniatáu i gynnig cymorth ariannol ar gyfer y Diploma Mynediad i AU yn y DU. Mae hyn wedi ei danategu gan y gweithgareddau rheoleiddio a wnawn i gynnal cywirdeb ac ansawdd y cymhwyster, ac i sicrhau bod y dysgwyr yn cael eu cefnogi i symud ymlaen i addysg uwch ac i lwyddo yn y maes hwn. Er mwyn cyflawni hynny, mae'n rhaid i ni sicrhau bod ein trefniadau rheoleiddio nid yn unig yn ddigon cadarn, ond hefyd yn gymesur.

16 Credwn fod y pethau hyn i gyd yn bwysig i greu'r amgylchedd gorau i alluogi twf y Diploma Mynediad i AU, yn y DU a thrwy'r byd i gyd. Er mai rôl QAA yw gwneud hyn yn y cyd-destun rheoleiddiol a pholisi, mae'n llai priodol i ni fel y corff rheoleiddio gymryd rhan mewn gweithgareddau megis marchnata uniongyrchol a recriwtio myfyrwyr. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i gydweithio ag Asiantaethau DMiAU mewn ffordd strategol i gefnogi eu huchelgeisiau.

17 Mae ein diddordeb mewn datblygu'r Diploma MiAU Rhyngwladol yn ateb i'r awydd i gynnal safle cystadleuol y DU yn y farchnad addysg uwch fyd-eang. Mae ein diddordeb yn berthnasol hefyd i ddyheadau eang i gynyddu'r gyfran o bobl sy'n cymryd rhan mewn addysg uwch drwy'r byd i gyd er mwyn cynorthwyo twf economaidd a chynnydd cymdeithasol. Er bod cystadleuaeth i'r Diploma MiAU Rhyngwladol, mae'r gwaith ymchwil a wnaethpwyd gan QAA yn awgrymu mai'r gystadleuaeth honno'n bennaf yw rhaglenni blwyddyn sylfaen a gynigir gan brifysgolion. Ystyriwn fod y farchnad darged ar gyfer y rhain yn wahanol i'r farchnad darged ar gyfer y Diploma MiAU Rhyngwladol am nad yw nifer o gyrsiau sy'n arwain at gymhwyster sy'n gydradd â chymhwyster lefel 3 yn Lloegr yn arwain at gymhwyster sy'n sefyll ar ei ben ei hun am eu bod yn gerrig camu 'blwyddyn 0' tuag at gyrsiau addysg uwch penodol. Mae'r Diploma MiAU Rhyngwladol yn arwain at gymhwyster sy'n caniatáu mwy o hyblygrwydd a symudedd, gan greu opsiynau i fyfyrwyr.

## Crynodeb o'r gweithgareddau a wnaethpwyd yn ystod 2021-25

18 Yn ystod 2021-22, sefydlwyd gweithgor yn QAA, a phenodwyd arbenigwr mewn addysg ryngwladol i arwain y gwaith o ddatblygu'r Diploma MiAU Rhyngwladol. O ganlyniad, lluniwyd dau bapur ymchwil allweddol:

- 18.1 Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol: Adroddiad ar ddichonoldeb datblygu a dyfarnu Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol
- 18.2 Y Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol (y Diploma MiAU Rhyngwladol): Trefn ar gyfer cymeradwyo, cydnabod a dyfarnu'r Diploma MiAU Rhyngwladol mewn lleoliadau y tu allan i'r DU.

19 Nodwyd yn yr *Adroddiad Dichonoldeb* bod y Diploma MiAU Rhyngwladol yn derbyn ystyriaeth ar adeg pan oedd Llywodraeth y DU yn gobeithio datblygu ei strategaeth addysg

ryngwladol fel y disgrifiwyd yn niweddariad 2021 i'r *Strategaeth Addysg Ryngwladol*[3] gyda'i dyhead cydredol o gynyddu nifer y myfyrwyr addysg uwch rhyngwladol sy'n astudio yn y DU a chynyddu allforion addysg ar ffurf trefniadau addysg drawswladol. Yn y cyd-destun hwn y bu'r *Adroddiad Dichonoldeb* yn archwilio'r cyfraniad posibl y gallai Diploma MiAU Rhyngwladol ei wneud i recriwtio myfyrwyr rhyngwladol o amrywiaeth ehangach o wledydd. Ers hynny bu sawl diweddariad ym mholisi'r Llywodraeth o ran addysg uwch a myfyrwyr rhyngwladol, yn fwyaf nodedig yn y Papur Gwyn a gyhoeddwyd yn gynharach y mis hwn; fodd bynnag mae'r DU yn parhau i fod wedi ymrywmo i groesawu myfyrwyr rhyngwladol cyn belled â'u bod yn bodloni'r gofynion ar gyfer astudio yn y wlad hon.

20 Aeth QAA i drafodaethau archwiliadol hefyd gyda chyrff y llywodraethau ym Malaysia, Oman, Saudi Arabia a Fietnam. Cafodd y rhain eu cofnodi mewn adroddiad am waith ymchwil i'r farchnad, a'u rhannu mewn sesiynau briffio i Asiantaethau DMiAU a gynhaliwyd yn gyfnodol yn ystod 2022.

21 Yn ystod 2022-23, cafwyd adborth gan Asiantaethau DMiAU oedd ymwneud yn uniongyrchol â'r Diploma MiAU Rhyngwladol a hefyd mewn perthynas â phroblemau gweithredol sy'n deillio o'r Cynllun Cydnabod i dynnu sylw at bryderon cynyddol ynglŷn â gallu'r trefnau cyfredol ar gyfer y DU i ateb anghenion QAA, yr Asiantaethau DMiAU a'r cymhwyster Diploma MiAU ei hun yn y dyfodol. Yn yr adborth a roddwyd gan Asiantaethau DMiAU i QAA, tynnwyd sylw at yr effaith a gafodd y trefnau rheoleiddio arnyn nhw, ac yn arbennig, sylwadau'n trafod a oedd yr holl weithgareddau rheoleiddio'n gymesur.

22 O ganlyniad, gwelwyd gwir bryder ynglŷn â baich rheoleiddiol sy'n cael ei basio ymlaen i ddarparwyr y cymhwyster, a'r effaith y gallai hyn ei chael arnyn nhw. Ar y cyfan, canfuwyd risg y gallai gofynion rheoleiddiol nad ydynt yn gymesur â'r risg rheoliadol atal twf y cymhwyster, ac mae hon yn sefyllfa nad yw unrhyw un eisiau ei gweld. Ym mis Mai 2023, penderfynwyd y dylid gohirio'r gwaith o ddatblygu trefniadau ar wahân ar gyfer y Diploma MiAU Rhyngwladol oherwydd roedden nhw wedi eu seilio'n drwm ar y trefnau ar gyfer y DU a oedd yn awr o dan adolygiad, ac roedd hi'n hanfodol bod y materion sylfaenol hyn yn derbyn sylw yn gyntaf.

23 Yn ystod 2022-23, dychwelodd QAA at 'ffyrdd arferol o weithio' pan ddaeth y pandemig COVID-19 i ben. Yn ystod y pandemig ym mlynyddoedd academaidd 2020-21 a 2021-22, roedd angen i ni weithredu'n gyflym, ac aethom ati i gyflwyno Fframwaith Rheoleiddio Eithriadol gyda'r nod penodol o fynd i'r afael â'r heriau eithriadol a digynsail a gododd yn sgil y pandemig. Rydym wedi dysgu, o'n profiad o weithredu'r Fframwaith Rheoleiddio Eithriadol, fod nifer o newidiadau y gallem eu cyflwyno i'n gweithgareddau rheoleiddio a fyddai'n fanteisiol i'r ffordd yr ydym yn goruchwylio Mynediad i AU.

24 Yn 2023, roeddem yn hynod o falch bod yr Adran Addysg yn Lloegr wedi cadarnhau bod y Diplomâu Mynediad i AU yn bodloni'r meini prawf newydd o ran ansawdd a rheidrwydd, gan olygu y bydd dysgwyr cymwys yn parhau i elwa o gymorth ariannol gan y llywodraethau. Yn ein barn ni, mae hyn yn amlygu statws y cymhwyster, ond mae hefyd yn rhoi rhagor o bwys ar sicrhau bod y trefniadau i reoleiddio'r cymhwyster yn aros yn gyfatebol â'r datblygiadau yn amgylchedd ehangach y sector addysg drydyddol, yng nghyd-destun y gwaith parhaus o archwilio ac adolygu'r tirlun rhaglenni blwyddyn sylfaen a chymwysterau lefel 3[4].

25 Ym mis Mai 2024, cynhaliodd QAA ymgynghoriad cyhoeddus ar newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Cydnabod, a chyhoeddodd ei bwriad i wneud ymgynghoriad pellach yn fuan yn 2025 er mwyn symud ei chynlluniau ar gyfer y Diploma MiAU Rhyngwladol yn eu blaenau. Mae'r

---

[3] www.gov.uk/government/publications/international-education-strategy-2021-update
*NODWCH: Ym mis Medi 2024, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bwriad i gyhoeddi strategaeth addysg ryngwladol newydd yn fuan yn 2025, o dan arweiniad yr Athro Syr Steven Smith.*

[4] Disgwylir y bydd y Swyddfa Myfyrwyr yn cyhoeddi canlyniadau ail gylch ei phroses ymchwilio ansawdd (sy'n canolbwyntio ar raglenni wedi'u hetholfreinio a rhaglenni blwyddyn sylfaen) yn ystod 2025.

Cynllun Cydnabod diwygiedig wedi ei gyhoeddi erbyn hyn, ac, mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyntaf, mae QAA yn bwriadu cyflwyno'r Diploma MiAU Rhyngwladol am gam peilot o ddwy flynedd, ar sail trwyddedau gwlad benodol. Ar ôl cwblhau'r cyfnod peilot yn llwyddiannus, bydd cyfle i'r Asiantaethau DMiAU drosglwyddo i drwydded sy'n caniatáu gweithredu mewn mwy nag un wlad. Mae'r ymgynghoriad cyfredol hwn yn rhoi cyfle i'r rhanddeiliaid siapio'r ffordd y mae QAA yn cymhwyso'r Trefniadau Trwyddedu i ddarpariaeth ryngwladol.

## Yr ymgynghoriad cyhoeddus blaenorol a'r camau nesaf

26 Yn yr ymgynghoriad cyhoeddus yn 2024, roedd y sylwadau a gafwyd gan y rhanddeiliaid am ein cynigion gwreiddiol yn amrywio, gan adlewyrchu cymhlethdod datblygu cymhwyster a fydd yn ateb gofynion penodol pob parti. Roedd y sylwadau hefyd yn adlewyrchu cymhlethdod y polisïau a'r ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar addysg drydyddol a'r 'sail gyfnewidiol' sy'n tanategu'r sector.

27 Ar ôl ystyried yr ymatebion, rydym wedi mireinio ein cynigion ac rydym bellach yn ceisio rhagor o fewnbwn gan yr Asiantaethau DMiAU a fydd, ochr yn ochr â QAA, yn ysgwyddo cyfran fawr o'r risg sy'n gysylltiedig â datblygu a gweithredu'r Diploma MiAU Rhyngwladol.

28 Yn yr ymgynghoriad cyhoeddus, rydym wedi disgrifio dau fodel posibl ar gyfer y trefniadau mewn perthynas â'r Diploma MiAU Rhyngwladol ac rydym wedi nodi ffafriaeth am opsiwn 1 oedd yn gofyn dyfarnu trwyddedau i Asiantaethau DMiAU unigol ar gyfer gwlad benodol wedi iddynt ddangos cynllun credadwy ar gyfer gweithredu yn y wlad honno. Yn ôl Opsiwn 2, dyfernir trwydded sy'n caniatáu gweithredu mewn mwy nag un wlad ar ôl dangos cynllun credadwy ar gyfer gweithredu yn y gwledydd hynny.

29 Gan newid ein cynigion gwreiddiol mewn ymateb i adborth a gafwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus, rydym yn bwriadu gwneud y cyfnod peilot o ddwy flynedd ar gyfer y Diploma MiAU Rhyngwladol arfaethedig yn unol ag opsiwn 1 sydd wedi ei nodi uchod ac yna, ar ôl cwblhau hyn yn llwyddiannus, bydd Asiantaethau DMiAU yn trosglwyddo i fodel opsiwn 2.

30 Aethom ati hefyd i geisio adborth am faterion strategol a gweithredol sylfaenol megis gofynion o ran y Saesneg (yn benodol, y dylai'r myfyrwyr, pan fyddant wedi cwblhau eu cwrs Mynediad i AU, allu dangos gallu yn y Saesneg sy'n gydradd â lefel B2 Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd[5]) a mabwysiadu dulliau dysgu wyneb yn wyneb a dysgu cyfunol yn hytrach na dulliau darparu o bell. (Ni chaniateir yr olaf mewn rhai gwledydd ac mae'n creu pryderon ynglŷn â mynediad ac ansawdd mewn nifer o wledydd eraill.) Mae materion o'r fath yn cael eu trafod yn fanylach yn adrannau perthnasol yr ymgynghoriad hwn, ac rydym yn gwahodd Asiantaethau DMiAU i roi rhagor o adborth mewn perthynas â hynny.

31 Mae chwe phrif adran i'r ymgynghoriad hwn. Mae wedi ei strwythuro'n fras o amgylch rhannau cyfansoddol y Cynllun Cydnabod (y trefniadau trwyddedu, yr Amodau Mynediad i AU, y trefniadau monitro, y gofynion o ran y cymhwyster), gydag adrannau ychwanegol wedi'u dyroddi i'r cyfnod peilot arfaethedig a nodweddion penodol y Diploma MiAU Rhyngwladol yn cynnwys gofynion o ran y Saesneg, mabwysiadu dulliau dysgu cyfunol, a phynciau yn ymwneud â marchnata'r cymhwyster, gan gynnwys defnyddio nodau masnach, nodau geiriau a'r Nodau Cydymffurfiad â'r Disgrifwyr Pwnc.

32 Ar ôl cau'r ymgynghoriad, byddwn yn ystyried yr ymatebion i gyd. Yna byddwn yn gwneud newidiadau i'n cynigion os byddwn yn ystyried bod rheswm clir i wneud hynny.
Yn adran olaf yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi disgrifio cynigion am drosglwyddo i'r trefniadau rhyngwladol newydd hyn. Byddwn yn cadarnhau'r trefniadau pontio a gweithredu yn ein hymateb i'r ymgynghoriad a fydd yn cael ei gyhoeddi yn hydref 2025. Ein bwriad yw y bydd

[5] www.coe.int/en/web/common-european-framework-reference-languages/home

Asiantaethau DMiAU sydd eisiau gwneud cais am drwydded neu drwyddedau i gymeradwyo Diplomâu MiAU Rhyngwladol mewn sefyllfa i wneud hynny yn ystod blwyddyn academaidd 2025-26.

# Diffinio rôl a nod y Diploma MiAU Rhyngwladol

33 Yn yr adran hon, rydym yn nodi'r diffiniad o'r Diploma MiAU Rhyngwladol a'i nodweddion arbennig. Yn y DU, mae'r Diploma MiAU yn cael ei gydnabod am ei fod yn unigryw - gyda chwricwlwm a darpariaeth a luniwyd i ddysgwyr sy'n oedolion ac sy'n dymuno mynd ymlaen i addysg uwch. Mae'r gydnabyddiaeth i'w ansawdd a'r ffaith ei fod yn angenrheidiol wedi diogelu ei ddyfodol hyd yn hyn o ran sicrhau cymorth ariannol gan y llywodraethau yn y DU. Dylai unrhyw ymdrechion rhyngwladol, waeth beth fo'r angen masnachol, ddiogelu a hyrwyddo safon a diben craidd nodedig y ddarpariaeth Mynediad i AU o ran cefnogi cynnydd i addysg uwch.

## Diffiniad o'r Diploma MiAU Rhyngwladol a'i nod

34 Drwy'r byd i gyd, mae'r gyfran o bobl sy'n cwblhau addysg uwchradd yn cynyddu, ond mae'r datblygiad yn araf ac anghyson. Dim ond un ymhob chwe gwlad fydd wedi cyflawni'r targedau cyffredinol o ran cwblhau addysg uwchradd erbyn 2030. Yn ôl astudiaeth y Cenhedloedd Unedig[6], achosodd y pandemig COVID golledion o ran dysgu mewn pedwar ymhob pum gwlad. Mae cofrestriad byd-eang mewn addysg uwch wedi dyblu yn y ddau ddegawd diwethaf, ond mae anghydraddoldeb parhaol a dwfn yn bodoli o hyd o ran pwy sy'n gallu cael lle mewn addysg uwch a llwyddo ac elwa ohoni[7].

35 Mae gan y Diploma Mynediad i AU y potensial i weddnewid bywydau unigolion, yn ogystal â chynorthwyo twf economaidd a chynnydd cymdeithasol ehangach. Dylai cyflwyno Diploma MiAU Rhyngwladol gyfrannu at Nod 4 Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, sef "sicrhau argaeledd addysg gyfartal a chynhwysol o safon uchel a hybu cyfleoedd dysgu gydol oes i bawb". Felly, bydd safon a diben craidd y ddarpariaeth Mynediad i AU, lle bynnag y darperir yr addysg, yn parhau'n bwynt ffocws drwy gydol yr ymgynghoriad hwn ac mewn unrhyw waith i ddatblygu Diplomâu MiAU Rhyngwladol yn y dyfodol.

36 Mae'r Diploma Mynediad i AU yn gymhwyster ar lefel 3 o addysg ôl-16 (sy'n gyfatebol â Lefelau A a Lefelau T yn Lloegr), ac mae'n canolbwyntio'n bennaf ar ddarparu cymwysterau i ddysgwyr sy'n oedolion ac sydd eisiau mynd i mewn i addysg uwch ond nad ydynt yn meddu ar y cymwysterau angenrheidiol yn y maes academaidd y maent eisiau astudio ynddo. Mae modd cwblhau cyrsiau Mynediad i AU llawn amser o fewn blwyddyn. Ar ôl cwblhau Diploma Mynediad i AU, gall y myfyrwyr symud ymlaen i astudio ar lefel uwch mewn darparwr addysg uwch - a gallai'r astudiaeth hon fod ar gyfer gradd neu gymhwyster lefel uwch arall ar lefel 4 neu'n uwch.

37 Yn ymarferol, rydym o'r farn y bydd demograffeg y myfyrwyr sy'n addas ar gyfer y Diploma MiAU Rhyngwladol yn cynnwys y canlynol:

37.1 myfyrwyr sy'n 17 oed neu'n hŷn nad ydynt wedi gweld bod astudiaeth gyfatebol â Lefel A yn addas iddyn nhw, ond yr ystyriwyd bod ganddynt y gallu i fynd i'r brifysgol

37.2 y rheiny sy'n 24 oed neu'n hŷn ac sy'n dymuno ailhyfforddi a dilyn llwybr gyrfaol arall

37.3 y rheiny sy'n 24 oed neu'n hŷn ac sy'n dymuno datblygu eu gyrfa ymhellach ond sydd angen cymhwyster addysg uwch i wneud hynny.

38 Prif nod y Diploma MiAU Rhyngwladol yw rhoi cyfle i fyfyrwyr mewn lleoliadau rhyngwladol fynd i mewn i addysg uwch. Ystyr 'addysg uwch' yn y fan yma yw addysg a

---

[6] https://sdgs.un.org/goals/goal4

[7] https://unesdoc.unesco.org/ark:/48223/pf0000392154

ddarperir ar lefel sy'n gyfatebol â lefel 4 y *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch Cyrff Dyfarnu Graddau yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ) neu lefel 7 *Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban* (SCQF)[8], waeth ymhle y mae'r myfyriwr yn bwriadu ceisio mynd i mewn i addysg uwch, naill ai yn y DU neu mewn gwlad arall.

39 Yn rhan o'r cynigion hyn, nid yw QAA yn bwriadu bod yn rhan o drefniadau derbyn darparwyr addysg uwch ledled y byd. Felly, bydd raid i'r Asiantaethau DMiAU, a'r darparwyr y maent eisiau gweithio â nhw, geisio sicrhau, yn rhan o'u cynlluniau credadwy ar gyfer gweithredu yn y gwledydd hynny, bod llwybrau cynnydd priodol ar gael i'w myfyrwyr gan ddarparwyr a fydd yn derbyn y Diploma MiAU Rhyngwladol.

40 Rydym yn cydnabod y bydd y rhan fwyaf o'r myfyrwyr Diploma MiAU Rhyngwladol wedi'u hariannu'n breifat ar y cychwyn mae'n debyg. Gallai hyn gynnwys y rheiny sy'n dymuno astudio i ennill cymhwyster addysg uwch y DU, ond sydd eisiau gostwng y costau astudio dramor y bydd raid iddynt eu hwynebu wrth wneud blwyddyn ychwanegol. Felly, credwn fod gan y Diploma MiAU Rhyngwladol y potensial i fod yn llwybr hygyrch at addysg uwch y DU, lle caniateir trefniadau cynnydd o'r fath mewn gwlad benodol.

41 Er hynny, rydym yn cydnabod enw da a gwerth y Diploma Mynediad i AU wrth wasanaethu grwpiau sy'n haeddu cyfle cyfartal megis: pobl sy'n wynebu hiliaeth, pobloedd frodorol a lleiafrifoedd ethnig, pobl sydd â moddion economaidd cyfyngedig, pobl ag anableddau, menywod, pobl LHDTC+, pobl sydd wedi cael eu dadleoli'n orfodol, pobl o leoliadau anghysbell a/neu wledig. Mae QAA yn bwriadu cysylltu â llywodraethau gwledydd tramor i drafod rhoi cydnabyddiaeth ffurfiol i'r Diploma MiAU Rhyngwladol ac i adnabod ffynonellau cymorth ariannol posibl i ddysgwyr sy'n oedolion ac sydd eisiau ennill Diploma MiAU Rhyngwladol i fynd i mewn i addysg uwch ond sydd heb y moddion ariannol i wneud hynny. Bydd ein blaenoriaethau a'n dulliau wedi eu hysbysu gan ddiddordeb a gweithgarwch Asiantaeth DMiAU mewn marchnadoedd penodol.

## Y cwestiynau ymgynghorol

**C1.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y diffiniad a roddwyd o'r Diploma MiAU Rhyngwladol?

**C2.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am ddiben arfaethedig y Diploma MiAU Rhyngwladol?

**C3.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am ddemograffeg arfaethedig y myfyrwyr?

**C4.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau eraill am yr adran hon o'r ymgynghoriad?

[8] www.qaa.ac.uk/docs/qaa/quality-code/y-fframweithiau-ar-gyfer-cymwysterau-addysg-uwch-cyrff-dyfarnu-graddau-r-du.pdf

## Y trefniadau i Asiantaethau DMiAU sy'n mynd i Gytundeb Trwyddedu ar gyfer y Diploma Rhyngwladol

42 Yn yr adran hon, rydym yn disgrifio ein cynigion i newid ein trefniadau trwyddedu ar gyfer y DU er mwyn galluogi i Asiantaethau DMiAU gael eu trwyddedu ar gyfer y Diploma MiAU Rhyngwladol. Mae estyniad y ddarpariaeth Mynediad i AU i mewn i wledydd newydd yn debygol o gynyddu'r gofynion am adnoddau'n gyffredinol ar gyfer QAA a'r Asiantaethau DMiAU. Er y byddwn yn ymdrechu yn ein dull o weithio i sicrhau bod y math hwn o faich yn cael ei gadw mor fach ag y bo modd, ni fyddwn yn gwneud hynny ar draul adolygu'r risgiau ac ymdrin â nhw mewn ffordd drwyadl a phriodol.

43 I egluro ac i leihau unrhyw faich ychwanegol yn sylweddol, rydym yn bwriadu sicrhau bod y trefniadau trwyddedu ar gyfer darpariaeth yn y DU yn gyfatebol â'r rheiny ar gyfer darpariaeth ryngwladol. Lle mae addasiadau wedi cael eu cynnig, maen nhw'n adlewyrchu gwahaniaethau sylweddol yn y trefnau darparu a allai achosi risgiau sylweddol i ansawdd os cânt eu gadael fel y maent.

44 Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys cynigion sy'n nodi sut y gall sefydliadau wneud cais i QAA am drwydded, sut y byddwn yn gweithredu proses ail-drwyddedu cyfnodol, a manylion y ffioedd sy'n berthnasol i Asiantaethau DMiAU trwyddedig.

### Cymryd rhan yng ngham peilot y Diploma MiAU Rhyngwladol

45 Mae'r cyfnod peilot yn cynrychioli cyfnod o ddwy flynedd a fydd yn galluogi i QAA a'r Asiantaethau DMiAU cyfredol gydweithio i dreialu darpariaeth ryngwladol ar raddfa fechan cyn mynd ati i ddarparu'n llawn. Byddwn yn treulio'r amser hwn yn canfod problemau posibl, casglu adborth, a mireinio ein dull o ddarparu'r Diploma MiAU Rhyngwladol.

46 Yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus cychwynnol, rydym wedi awgrymu dau opsiwn i ddyfarnu trwyddedau rhyngwladol. Yn ôl Opsiwn 1, dyfernir trwydded i Asiantaethau DMiAU unigol ar gyfer gwlad benodol wedi iddynt ddangos cynllun credadwy ar gyfer gweithredu yn y wlad honno. Yn ôl Opsiwn 2, dyfernir trwydded sy'n caniatáu gweithredu mewn mwy nag un wlad ar ôl dangos cynllun credadwy ar gyfer gweithredu yn y gwledydd hynny.

47 Yn yr ymgynghoriad cyhoeddus cychwynnol a gynhaliwyd yn 2024, roedd yr ymatebwyr hynny nad ydynt yn Asiantaethau DMiAU, a rhai o'r Asiantaethau DMiAU hefyd, yn cefnogi opsiwn 1 yn gyffredinol. Fodd bynnag, awgrymwyd dulliau amgen gan rai Asiantaethau DMiAU eraill ac, mewn ymateb i'r adborth, rydym yn awr yn cynnig bod opsiwn 1 yn cael ei weithredu yn ystod y cyfnod peilot, gydag Asiantaethau DMiAU yn trosglwyddo i opsiwn 2 ar ôl y cyfnod peilot, yn amodol ar adnewyddu'r drwydded.

48 Dyma fydd amcanion allweddol y cyfnod peilot:

48.1 **Profi'r dichonoldeb** - penderfynu a yw cysyniad y Diploma MiAU Rhyngwladol yn realistig ac yn gyraeddadwy dan amodau go iawn

48.2 **Casglu data ac adborth** - Casglu data am gyfraddau cofrestriad, llwyddiant a chynnydd y myfyrwyr, ac unrhyw heriau posibl

48.3 **Canfod a mynd i'r afael â phroblemau** - adnabod a datrys problemau (yn ymwneud â phrofiad myfyrwyr er enghraifft) cyn iddyn nhw effeithio ar garfan fwy o bobl

48.4 **Mireinio'r dull** - gwneud addasiadau angenrheidiol ar sail canlyniadau'r peilot er mwyn gwella cynllun y ddarpariaeth a'r trefniadau monitro

48.5 **Asesu elfennau ar raddfa fwy** - canfod unrhyw heriau wrth symud o drwyddedau unigol ar gyfer gwlad benodol i drwyddedau rhyngwladol

48.6 **Magu hyder** - datblygu ymwybyddiaeth y rhanddeiliaid o gynnig y Diploma MiAU Rhyngwladol a meithrin eu hyder ynddo.

49 Ar y cyfan, mae'r cyfnod peilot yn gam hanfodol i leihau risgiau, gwella ansawdd, a sicrhau gweithrediad llwyddiannus ac effeithlon. Felly, dylai'r drwydded ryngwladol fod ar gael dim ond i'r Asiantaethau DMiAU hynny sydd â thrwydded gyfredol ar gyfer y DU. Er budd y darparwyr a'r myfyrwyr, dim ond Asiantaethau DMiAU sydd â phrofiad mewn dilysu darparwyr, dilysu a chymeradwyo cyrsiau a dyfarnu Diplomâu sy'n cael cymryd rhan yn y cyfnod peilot. Yn ogystal, dim ond yr Asiantaethau DMiAU hynny sy'n meddu ar drwydded ar gyfer y DU ar adeg yr ymgynghoriad hwn, ac sydd wedi cael eu haildrwyddedu'n llwyddiannus o dan y trefniadau newydd, a fydd yn cael cymryd rhan yn y cyfnod peilot.

## Y cymhwysedd i gael trwydded Asiantaeth DMiAU ryngwladol

50 I egluro, mae'r ddogfen ymgynghori hon yn gwahaniaethu rhwng y canlynol:

50.1 **Cam peilot** - sef y term a ddefnyddir i ddisgrifio'r ddwy flynedd yn union ar ôl blwyddyn academaidd 2025-26 pan fydd yr holl weithgarwch rhyngwladol ar draws yr holl Asiantaethau DMiAU sy'n cymryd rhan yn cael eu gwerthuso er mwyn datblygu'r Diploma MiAU Rhyngwladol.

50.2 **Cyfnod peilot** - sef y term a ddefnyddir i ddisgrifio'r ddwy flynedd pan fydd Asiantaeth DMiAU sydd newydd ei chymeradwyo i ddyfarnu'r Diploma MiAU Rhyngwladol mewn gwlad benodol yn gweithredu o dan Opsiwn 1 (gwelwch baragraff 28), cyn dod yn gymwys i wneud cais am drwydded ryngwladol lawn.

51 I Asiantaethau DMiAU cyfredol sy'n cymryd rhan yng nghyfnod peilot QAA, bydd eu cyfnod peilot o ddwy flynedd yn cychwyn pan fydd trwydded ryngwladol wedi ei chymeradwyo yn rhan o'r cyfnod peilot a bydd yn parhau y tu hwnt i'r cyfnod peilot.

52 Mae QAA yn ystyried y cyfnod peilot yn rhan bwysig o'r broses o ddatblygu darpariaeth ryngwladol i Asiantaeth DMiAU. Felly, bydd yn rhaid i unrhyw Asiantaeth DMiAU sy'n bwriadu gwneud cais am drwydded ryngwladol am y tro cyntaf ar ôl y cyfnod peilot fynd drwy gyfnod peilot tebyg o ddwy flynedd. Trwy gael cyfnod o ddwy flynedd, sicrheir ei fod yn para dros y flwyddyn academaidd gyfan. Mae hyn yn cynnwys Asiantaethau DMiAU cyfredol sy'n dewis peidio cymryd rhan yn y cam peilot cychwynnol, a sefydliadau sy'n cael eu trwyddedu fel Asiantaeth DMiAU yn ystod neu ar ôl y cam peilot cychwynnol. Yn ystod eu cyfnod peilot, bydd Asiantaethau DMiAU yn cael eu trwyddedu ar gyfer gwlad benodol yn ôl Opsiwn 1 (gwelwch baragraff 28).

53 Nid ydym yn gofyn i Asiantaethau DMiAU feddu ar brofiad blaenorol o weithredu mewn gwlad benodol cyn iddi allu cael ei thrwyddedu i ddarparu'r Diploma yn y wlad honno. Y rheswm am hyn yw y byddai'n peri anfantais i Asiantaethau DMiAU sy'n ymwneud yn bennaf neu'n gyfan gwbl â darpariaeth Mynediad i AU bryd hynny.

54 Ar hyn o bryd, nid ydym yn bwriadu rhoi cyfyngiad ar y nifer o Asiantaethau DMiAU sy'n cael eu trwyddedu i weithredu mewn gwlad benodol. Hefyd, nid ydym yn gweld unrhyw reswm mewn egwyddor pam na ellir addasu'r cyrsiau Diploma a ddilyswyd yn barod neu eu cynnig yn rhyngwladol yn rhan o gynllun credadwy sy'n cydnabod cyd-destun y wlad benodol a'i gofynion. Mae hyn yn cynnwys Diplomâu Mynediad i AU mewn Meddygaeth, Nyrsio, a Phroffesiynau Iechyd sy'n cydymffurfio â'r Disgrifwyr Pwnc perthnasol, ar yr amod bod y fersiynau rhyngwladol ohonynt yn bodloni'r gofynion o ran y strwythur cyffredinol sydd wedi eu nodi ym Manyleb y Diploma, a'u bod yn paratoi'r myfyrwyr ar gyfer y llwybrau cynnydd sydd ar gael iddyn nhw yn eu gwledydd cartref a'r DU fel ei gilydd (gallwch weld rhagor o fanylion ym mharagraff 154).

## Gwneud cais am drwydded ar gyfer y Diploma MiAU Rhyngwladol

55 Roedd baich rheoleiddiol yn thema amlwg drwy holl ymatebion yr ymgynghoriad cyhoeddus yn 2024. Rydym yn cydnabod y bydd y broses o wneud cais am drwydded neu drwyddedau ychwanegol yn achosi rhywfaint o faich ychwanegol ar Asiantaethau DMiAU yn naturiol. Lle'r Asiantaeth DMiAU unigol yw ystyried a phenderfynu a yw'r Diploma MiAU Rhyngwladol yn addas ar gyfer ei gweithredoedd hi.

56 Yn debyg i'r drwydded ar gyfer y DU, dyfernir trwydded ryngwladol am gyfnod penodol o amser, wedi hynny mae'n rhaid i Asiantaeth DMiAU wneud cais eto i gynnal ei thrwydded. Penderfynir ar gyfnod dilysrwydd trwydded Asiantaeth DMiAU ar sail unigol, ond bydd yn atebol i'r safiad polisi cyffredinol a ganlyn fel canllaw:

57

| Math o drwydded | Cyfnod dilysrwydd |
|---|---|
| Trwydded ryngwladol gychwynnol (am gyfnod peilot) ar gyfer gwlad unigol - i bob Asiantaeth DMiAU sy'n newydd i'r Diploma MiAU Rhyngwladol, gan gynnwys y rheiny sy'n cymryd rhan yn y cyfnod peilot | Dwy flynedd |
| Trwydded ryngwladol wedi'i hadnewyddu - Asiantaethau DMiAU sy'n gwneud cais i gael eu hail-drwyddedu, lle nad oes unrhyw bryderon parhaus am eu cydymffurfiad (er enghraifft, nid ydynt yn derbyn ymchwiliad parhaus ar hyn o bryd) ac nid ydynt yn atebol i unrhyw weithgareddau rheoleiddio | Pum mlynedd |
| Trwydded wedi'i hadnewyddu - Asiantaethau DMiAU sy'n gwneud cais i gael eu hail-drwyddedu, lle mae pryderon parhaus am eu cydymffurfiad neu lle mae'r Asiantaeth DMiAU yn atebol i weithredu cyfredol gan QAA o ganlyniad i unrhyw weithgareddau monitro | Tair blynedd |

58 Bydd angen i Asiantaeth DMiAU fod wedi cynnal trwydded ar gyfer y DU am o leiaf ddwy flynedd cyn iddi wneud unrhyw gais am drwydded ryngwladol. Mae hyn yn sicrhau bod amser gan sefydliad i ddod yn gyfarwydd â phob agwedd o'r Cynllun Cydnabod cyn ei ddefnyddio gyda darparwyr mewn lleoliadau anghysbell. Trwy gael cyfnod o ddwy flynedd, sicrheir ei fod yn para dros y flwyddyn academaidd gyfan.

59 Mae dwy broses adnewyddu trwyddedau ar wahân, un ar gyfer trwyddedau rhyngwladol, ac un arall ar gyfer y DU. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y posibilrwydd y byddai'n well gan Asiantaeth DMiAU redeg ei thrwyddedau ar gyfer y DU a'i thrwyddedau rhyngwladol ar yr un pryd a bydd QAA yn gweithio gyda'r Asiantaethau DMiAU i addasu dyddiadau adnewyddu os bydd hi'n ymddangos y byddai manteision cymesur yn deillio o wneud hynny.

60 Gall Asiantaeth DMiAU ildio ei thrwydded ryngwladol neu ei thrwyddedau rhyngwladol heb unrhyw effaith ar gyfnod dilysrwydd neu delerau ei thrwydded ar gyfer y DU.

61 Bydd beirniadaethau rheoleiddio, pryderon ynglŷn â chydymffurfiad a gweithgareddau monitro rheoleiddiol, megis ymchwiliadau sydd ar waith mewn perthynas â'r Diploma Mynediad i AU ar gyfer y DU a'r Diploma MiAU Rhyngwladol, yn hysbysu'r penderfyniad a ddylid dyfarnu trwydded ryngwladol i Asiantaeth DMiAU neu adnewyddu ei thrwydded ai peidio. Bydd gan Asiantaethau DMiAU hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau QAA.

62 Rydym yn cytuno bod y gofyniad i Asiantaethau DMiAU ddangos cynllun credadwy ar gyfer pob gwlad yn cynrychioli arfer gorau ac yn lleihau nifer o risgiau difrifol i enwau da'r

cymhwyster, yr Asiantaeth DMiAU a QAA. Nodwn yn arbennig mor bwysig yw prosesau diwydrwydd dyladwy a bod yn sensitif i ofynion pob gwlad unigol wrth ddarparu cymhwyster rhyngwladol, a nodwn fod y gofynion hyn yn amrywiol ac eang. Rydym yn ystyried y byddai'r risg yn uchel os na fyddwn yn gwneud yn siŵr bod yr Asiantaethau DMiAU wedi gwneud y gwaith ymchwil a chynllunio gofynnol a'n bod wedi ein sicrhau ein hunain o hynny.

63 Rydym yn cynnig y dylid cyfyngu Asiantaethau DMiAU i weithredu dim ond un Diploma fesul maes astudio ym mhob gwlad yn ystod eu cyfnod peilot. Y rheswm am hynny yw er mwyn sicrhau ein bod yn osgoi unrhyw anghysondeb mewn gwlad benodol ac y gallwn ddarparu sicrwydd i asiantaethau a llywodraethau yn y marchnadoedd rhyngwladol perthnasol bod y cymhwyster yn llwybr dichonol at addysg uwch. Rydym yn derbyn y bydd hyn yn cyfyngu yn y tymor byr ar allu'r Asiantaeth DMiAU i ddatblygu gwahanol Ddiplomâu i wahanol ddarparwyr; ond, credwn y bydd unrhyw anfantais a ddaw o hyn wedi'i oresgyn gan y budd a ddaw o sicrhau fod pob myfyriwr mewn gwlad benodol yn cael cwricwlwm cyson. Bydd y cyfyngiad hwn yn cael ei ddileu unwaith y bydd yr Asiantaeth DMiAU wedi cwblhau ei chyfnod peilot.

64 Bydd Asiantaethau DMiAU yn cael eu gwahodd i gyflwyno datganiadau o ddiddordeb yn y cyfnod peilot o fis Medi 2025. Bryd hynny, gofynnir iddyn nhw roi syniad o'r gwledydd y maent eisiau gweithredu ynddynt, y darparwyr y maen nhw'n bwriadu cydweithio â nhw a'u model busnes (e.e. etholfraint), a'r Diplomâu y maen nhw'n debygol o'u datblygu. Dylai pob Asiantaeth DMiAU hefyd amlinellu nodweddion nodedig ar dirlun addysgol a rheoleiddiol y wlad honno sy'n debyg i, yn gymaradwy â, neu'n wahanol i'r DU. Dyma rai enghreifftiau o'r nodweddion hyn:

64.1 cynllun strategol llywodraeth y wlad dramor benodol ar gyfer addysg drydyddol

64.2 cyfleoedd addysg ôl-16 preifat a chyhoeddus sydd ar gael ar hyn o bryd, a chymorth ariannol ar eu cyfer

64.3 fframwaith cymwysterau cenedlaethol

64.4 cofrestr genedlaethol o ddyfarniadau

64.5 gofynion swyddogol, statudol neu gyfreithiol sy'n effeithio ar addysg, gan gynnwys hawliau defnyddwyr a chydraddoldeb

64.6 trefnau arolygu/sicrhau ansawdd

64.7 gofynion mynediad i addysg uwch.

65 Ar ôl cyflwyno datganiad o ddiddordeb, bydd QAA yn gwneud arolwg cwmpasu anffurfiol ac yn trafod cynlluniau'r Asiantaeth DMiAU gyda nhw. Nid oes unrhyw broses ffurfiol o ddethol neu gymeradwyo ar y cam hwn. Y nod yw agor trafodaeth er mwyn sicrhau bod QAA yn gallu cefnogi'r Asiantaeth DMiAU yn effeithiol wrth ddatblygu a chyflwyno ei chynnig ac adnabod, yn gynnar, unrhyw heriau posibl a allai niweidio hygrededd neu hyfywedd y cynnig. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i'r Asiantaeth DMiAU ofyn cwestiynau i QAA am y camau nesaf yn ei chais am drwydded ryngwladol.

66 Wedi i'r Asiantaeth DMiAU gyflwyno ei datganiad cychwynnol o ddiddordeb, bydd yn mireinio ei chynnig ar gyfer pob gwlad i'w galluogi i gyflwyno cynllun credadwy yn rhan o'i chais (bydd templed ar gael). Mae'n rhaid cyflwyno'r cais o fewn blwyddyn galendr i gyflwyno'r datganiad o ddiddordeb, neu chwe mis cyn i'r cyfnod peilot ddod i ben, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf. Ar ôl y cyfnod peilot, bydd QAA yn parhau i ddisgwyl i gais am drwydded ryngwladol gael ei gyflwyno i'w gymeradwyo o fewn blwyddyn galendr o ddyddiad cyflwyno'r datganiad cychwynnol o ddiddordeb.

67 Yn dilyn cyflwyno'r cais, bydd un o swyddogion QAA yn gwirio'r dogfennau i sicrhau bod y ffurflen gais wedi ei chwblhau yn ei chyfanrwydd a bod yr holl ddogfennau ategol wedi

eu cyflwyno. Bydd cyfle i'r Asiantaeth DMiAU gyflwyno rhagor o wybodaeth ac ni fydd y cais yn cael ei symud ymlaen nes bydd y wybodaeth honno wedi ei derbyn.

68 Unwaith y cadarnheir bod y cais yn gyflawn, bydd yr holl ddogfennau a gyflwynwyd yn cael eu hadolygu, gan geisio tystiolaeth sy'n dangos bod y sefydliad yn bodloni, neu y bydd yn bodloni, gofynion y Cynllun Cydnabod ar gyfer darpariaeth ryngwladol. Bydd pob cais yn derbyn ystyriaeth gan gyfeirio at y pwyntiau a ganlyn:

68.1 digonolrwydd ac eglurder y wybodaeth a ddarparwyd

68.2 gallu'r sefydliad i gyflawni ei gyfrifoldebau fel Asiantaeth DMiAU sy'n gweithredu'n rhyngwladol

68.3 gallu potensial sefydliad yr Asiantaeth DMiAU i gyflawni a bodloni'r amodau trwyddedu ar gyfer gweithredu'n rhyngwladol

68.4 parodrwydd yr Asiantaeth DMiAU i ymdrin ag unrhyw broblemau a welwyd yn ystod y broses ymgeisio

68.5 effaith dyfarnu trwydded ryngwladol newydd ar unrhyw ddarpariaeth Mynediad i AU a gynigir yn barod yn y wlad honno.

69 Os bydd angen rhagor o wybodaeth ar y tîm trwyddedu (er enghraifft, tystiolaeth ychwanegol, neu eglurhad neu sicrwydd pellach) i gwblhau eu gwaith o asesu'r cais, mae'n bosib y byddant yn cysylltu â'r Asiantaeth DMiAU, gan gyfuno eu hymholiadau i gyd mewn un cais yn ddelfrydol, a hefyd gynnwys manylion fformat disgwyliedig y wybodaeth y gofynnir amdani a'r dyddiad cau ar gyfer ei chyflwyno.

70 O dan Gynllun Awdurdodau Dirprwyedig QAA, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Rheoleiddio a Thrwyddedu Mynediad i AU (Pwyllgor RhThrMiAU) ystyried unrhyw benderfyniadau am ddyfarnu Trwyddedau Asiantaeth DMiAU, a phenderfyniadau am eu tynnu yn eu holau, i'w hargymell i Fwrdd QAA. Felly, rhoddir gwybod i'r Pwyllgor RhThrMiAU beth yw argymhelliad y tîm trwyddedu. Os bydd y Pwyllgor RhThrMiAU yn cytuno â'r argymhelliad a wneir gan y tîm trwyddedu bydd yn cael ei basio i Fwrdd QAA i dderbyn penderfyniad terfynol; os nad yw'r Pwyllgor RhThrMiAU yn cytuno â'r tîm trwyddedu, bydd y cais yn cael ei basio yn ôl i'r tîm trwyddedu i gael ei ailystyried.

71 Bydd Bwrdd QAA yn penderfynu a ddylid dyfarnu trwydded ryngwladol ai peidio. Dyma'r canlyniadau posibl:

71.1 Dyfarnu trwydded ryngwladol gychwynnol am gyfnod o ddwy flynedd (sef y cyfnod peilot), yn amodol ar yr amodau safonol ac unrhyw gamau gweithredu penodol sy'n ofynnol (i Asiantaethau DMiAU y mae dyfarnu cymwysterau rhyngwladol yn beth newydd iddynt)

71.2 Dyfarnu trwydded ryngwladol lawn am gyfnod o dair blynedd, yn amodol ar yr amodau safonol ac unrhyw gamau gweithredu penodol sy'n ofynnol (yn berthnasol i Asiantaeth DMiAU sydd eisiau adnewyddu ei thrwydded ar ôl cwblhau ei chyfnod peilot)

71.3 Dyfarnu trwydded ryngwladol lawn am gyfnod o bum mlynedd, yn amodol ar yr amodau safonol ac unrhyw gamau gweithredu penodol sy'n ofynnol (yn berthnasol i Asiantaeth DMiAU sydd eisiau adnewyddu ei thrwydded ar ôl cwblhau ei chyfnod peilot)

71.5 Gwrthod dyfarnu trwydded ryngwladol.

72 Bydd nifer o ffactorau'n penderfynu faint o amser mae'n ei gymryd i asesu cais, yn cynnwys cymhlethdod y gwaith, y galw (faint o geisiadau am drwydded sy'n cael eu prosesu a gweithgareddau rheoleiddio eraill y mae QAA yn eu gwneud), ac amseriad y cyflwyniad mewn perthynas ag amserlen y bobl yn QAA sy'n gwneud y penderfyniadau. Yn gyffredinol, byddwn yn disgwyl i gais gymryd 4-6 mis o amser cyflwyno'r cais hyd y penderfyniad. Yn ystod y broses, bydd Swyddogion QAA yn disgwyl bod mewn cysylltiad â'r Asiantaeth DMiAU i drafod ei chais a sut mae'n dod yn ei flaen.

73 Os bydd yr Asiantaeth DMiAU yn anghytuno â phenderfyniad Bwrdd QAA, bydd cyfle iddi gyflwyno achos drwy broses apelio ffurfiol, os bydd yn dymuno gwneud hynny.

74 Byddwn yn cyflwyno canllawiau i gefnogi Asiantaethau DMiAU wrth iddynt wneud cais am drwydded ryngwladol ar ôl yr ymgynghoriad. Bydd y canllawiau'n cyfarwyddo Asiantaethau DMiAU i sicrhau eu bod yn esbonio'n eglur sut y bydd pob agwedd o Amodau Trwyddedu QAA yn cael eu cefnogi yn y cyd-destun rhyngwladol:

74.1 Trefnau rheoli, llywodraethu a strategaeth

74.2 Monitro a darparu gwybodaeth

74.3 Cydnabod darparwyr a chyrsiau

74.4 Datblygu Diplomâu Mynediad i AU

74.5 Gosod, darparu a safoni asesiadau

74.6 Dyfarnu'r cymhwyster

75 Dylai'r cais nodi ac ystyried unrhyw heriau neu risgiau posibl ac unrhyw ffactorau lliniarol. Dyma rai o'r ffactorau a fydd yn cael eu hystyried, er y bydd eraill hefyd:

75.1 bodolaeth polisïau sofraniaeth addysgol sy'n golygu nad oes croeso i bartneriaid tramor

75.2 y tensiwn rhwng denu myfyrwyr sydd ag incwm uchel a'r rheiny sy'n perthyn i grwpiau difreintiedig

75.3 dilysrwydd y cwricwlwm arfaethedig mewn perthynas ag anghenion y wlad dramor honno a'r DU

75.4 ystyried gwahaniaethau cymdeithasol a diwylliannol yn cynnwys goblygiadau ar gyfer cyfathrebu, ffyrdd o weithio a sicrhau ansawdd, gan gynnwys dulliau o gasglu adborth gan y myfyrwyr ac ymateb iddo

75.5 mabwysiadu'n ofalus ddulliau dysgu cyfunol sy'n cydymffurfio â'r gofynion yn y wlad dramor hon ac yn rhoi manteision clir i'r myfyrwyr

75.6 aeddfedrwydd y farchnad, yn cynnwys ymwybyddiaeth y cyhoedd a'r cyflogwyr a'u derbyniad o addysg drydyddol i oedolion a chymwysterau sy'n cystadlu

75.7 Rhugldeb yn y Saesneg yn y wlad dramor honno ac ymysg carfanau myfyrwyr y dyfodol.

76 Bydd y canllawiau hefyd yn argymell bod Asiantaethau DMiAU yn cyfeirio at y Rhestr Wirio i Reoli Risgiau a gyhoeddwyd gan y British Council a Phrifysgolion y DU (yn y Saesneg

yn unig ar hyn o bryd) wrth gwblhau eu ceisiadau[9]. Mae'r rhestr wirio hon yn ymwneud â materion megis:

76.1 risg ariannol

76.2 risg i enw da

76.3 rhyddid academaidd a rhyddid i lefaru

76.4 ystyriaethau diogelwch

76.5 trefnau rheoli staff a pherthnasoedd

76.6 trefnau rheoli seiberddiogelwch, eiddo deallusol a data.

77 Bydd y canllawiau'n cyfarwyddo Asiantaethau DMiAU i sicrhau bod eu cynigion yn cynnwys archwiliad estynedig o dirlun addysgol a rheoleiddiol y wlad honno ac unrhyw nodweddion sydd wedi eu nodi yn eu datganiad cychwynnol o ddiddordeb, megis (a lle maen nhw ar gael):

77.1 cynllun strategol llywodraeth y wlad dramor benodol ar gyfer addysg drydyddol

77.2 cyfleoedd addysg ôl-16 preifat a chyhoeddus sydd ar gael ar hyn o bryd, a chymorth ariannol ar eu cyfer

77.3 fframwaith cymwysterau cenedlaethol

77.4 cofrestr genedlaethol o ddyfarniadau

77.5 systemau dosbarthu pynciau

77.6 gofynion swyddogol, statudol neu gyfreithiol sy'n effeithio ar addysg, gan gynnwys hawliau defnyddwyr a chydraddoldeb

77.7 trefnau arolygu/sicrhau ansawdd

77.8 gofynion mynediad i addysg uwch.

77.9 mynegeion sy'n nodi ac yn mesur anfantais (gwelwch droednodyn 25 yn Atodiad C sy'n ymwneud â'n disgwyliadau ac argaeledd data).

78 Bydd canllawiau QAA yn cyfarwyddo Asiantaethau DMiAU i ddarparu gwybodaeth eglur am unrhyw ofynion rheoleiddiol lleol a allai effeithio ar ddichonoldeb y cynnig waeth pa mor gredadwy ydyw ymhob agwedd arall, a chadarnhau pa gamau gweithredu a gymerwyd i gydymffurfio â'r gofynion hyn.

79 Ni fydd QAA yn dyfarnu trwydded ryngwladol os nad yw gofynion rheoleiddiol lleol yn gyfatebol, neu na ellir eu gwneud yn gyfatebol ar adeg yr asesiad, â chymeriad neu ddiben craidd y Diploma MiAU Rhyngwladol. Ar ysgwyddau'r Asiantaeth DMiAU y bydd y cyfrifoldeb am roi tystiolaeth i ddangos ei bod wedi ystyried y gofynion a ganlyn, neu ei bod yn cydymffurfio â nhw:

79.1 Unrhyw ganiatâd lleol y mae'n rhaid i'r Asiantaeth DMiAU neu QAA ei gael er mwyn darparu a dyfarnu'r Diploma MiAU Rhyngwladol

79.2 Unrhyw reoliadau lleol y mae'n rhaid i'r Asiantaeth DMiAU a QAA lynu atynt wrth ddarparu a dyfarnu'r Diploma MiAU Rhyngwladol

[9] www.universitiesuk.ac.uk/universities-uk-international/insights-and-publications/uuki-publications/managing-risk-and-developing-responsible

79.3 Unrhyw gydnabyddiaeth ar lefel y wlad y mae'n rhaid ei negodi (gan QAA, yr Asiantaeth DMiAU neu'r myfyriwr unigol) er mwyn i'r Diploma MiAU Rhyngwladol gael ei ddefnyddio i gael mynediad i addysg uwch

79.4 Unrhyw drefniadau diogelu rheoleiddiol a roddir i'r pynciau penodol (e.e. Meddygaeth, y Gyfraith, Pensaernïaeth).

80 Bydd y canllawiau hefyd yn cyfarwyddo Asiantaethau DMiAU i gynnwys gwaith ymchwil i'r farchnad sy'n dangos tystiolaeth o'r galw am y Diplomâu arfaethedig - ar ffurf Mynediad i AU a gyda chyfeiriad at y pwnc penodol. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am y llwybrau cynnydd a fwriedir i'r rhai sy'n cyflawni'r Diploma, a dylid ei roi yn ei gyd-destun mewn perthynas ag unrhyw addysg drawswladol a gynigir yn barod yn y wlad honno, a phartneriaethau cyfredol neu gyfleoedd partneriaeth.

## Y ffioedd ar gyfer gwneud cais a'r ffioedd gweinyddol blynyddol

81 Mae QAA yn bwriadu talu am y buddsoddiad sy'n gysylltiedig â'r cyfnod peilot, a bydd hyn yn gadael i ni hefyd weithio allan yn gywir faint o gostau y byddwn yn eu hwynebu. Bydd hyn yn ei dro'n galluogi i ni ddatblygu trefn ffioedd briodol. Nid ydym yn rhagweld y bydd gweithredu ein cynigion yn peri costau sylweddol neu ormodol, er ein bod yn cyfaddef y bydd cynnydd yn naturiol yn yr adnoddau sy'n ofynnol er mwyn gweithredu trefniadau ychwanegol. Bydd y treialu'n caniatáu i ni weld faint yn union fydd y costau.

82 Ni fydd ffi am gyflwyno datganiad o ddiddordeb neu gais am drwydded lawn neu am y gwaith asesu cysylltiedig, unrhyw bryd yn ystod neu ar ôl y cyfnod peilot. Yn yr un modd, ni fydd ffi i'w thalu am wneud cais i adnewyddu trwydded.

83 Unwaith y bydd trwydded wedi ei dyfarnu, bydd y ffioedd gweinyddol blynyddol yn cael eu hamcanrifo yn yr un ffordd â'r ffioedd am y trefniadau ar gyfer y DU. I egluro, mae hyn yn golygu y codir ffi ar Asiantaethau DMiAU ar sail y nifer o fyfyrwyr newydd a gofrestrwyd yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn golygu y bydd Asiantaethau DMiAU cyfredol yn elwa o gael un flwyddyn o gofrestriadau ar ôl dyfarnu trwydded newydd cyn i unrhyw ffi bellach gael ei chodi.

84 Penderfynir ar y 'cost uned' fesul myfyriwr drwy amcanrifo'r costau i QAA a fydd yn deillio o weithredu'r Cynllun Cydnabod ar gyfer y Diploma MiAU Rhyngwladol, a thynnu cyfanswm yr incwm sy'n deillio o weithredu'r Diploma MiAU Rhyngwladol. Yn debyg i'r trefniadau ar gyfer y DU, byddwn yn gosod isafswm ffi i'r Asiantaethau DMiAU hynny lle mae cyfanswm y ffioedd a delir ganddynt yn is na throthwy penodol.

85 Ni fydd Asiantaethau DMiAU sy'n cymryd rhan yn y cyfnod peilot yn atebol i unrhyw ffioedd gweinyddol yn ystod y cyfnod peilot.

## Y cwestiynau ymgynghorol

**C5.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y cam peilot o ddwy flynedd ar gyfer Asiantaethau DMiAU cyfredol?

**C6.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y cymhwysedd i gael trwydded Asiantaeth DMiAU ryngwladol?

**C7.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y broses o wneud cais am drwydded ryngwladol?

**C8.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am strwythur y ffioedd ar gyfer y drwydded ryngwladol?

**C9.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau eraill am yr adran hon o'r ymgynghoriad?

## Y trefniadau ar gyfer cynnal trwydded Asiantaeth DMiAU ar gyfer y Diploma Rhyngwladol

86 Mae'r adran hon yn disgrifio'r trefniadau trwyddedu sy'n nodi'r gofynion ar gyfer dod yn Asiantaeth DMiAU sy'n gweithredu'n rhyngwladol, a'r amodau parhaus y mae'n rhaid i Asiantaeth DMiAU barhau i'w bodloni er mwyn cynnal ei thrwydded ryngwladol. Mae hefyd yn disgrifio'r dulliau y bydd QAA yn eu defnyddio i fonitro ac asesu cydymffurfiad drwy ddefnyddio trefnau monitro cyffredinol a manylach i hysbysu beirniadaethau rheoleiddio.

87 Am fod dyfarniad a chynhaliaeth trwydded ryngwladol yn amodol ar y ffaith bod yr Asiantaeth DMiAU wedi derbyn ac yn cynnal trwydded ar gyfer y DU, mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU sy'n gweithredu y tu allan i'r DU gydymffurfio â'r canlynol:

87.1 *Y Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch* - dogfennaeth gyfredol - mae'r ddogfen hon yn disgrifio telerau'r Cytundeb Trwyddedu i Asiantaethau DMiAU ar gyfer y DU a'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer dod yn Asiantaeth DMiAU a chynnal trwydded Asiantaeth DMiAU ar gyfer y DU. Yn y ddogfen hon, rydym yn disgrifio telerau ychwanegol y mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU sydd eisiau gweithredu y tu allan i'r DU gytuno iddynt.

87.2 *Y Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch sy'n Gweithredu'n Rhyngwladol* - dogfennaeth arfaethedig - bydd y ddogfen hon yn disgrifio telerau'r Cytundeb Trwyddedu i Asiantaethau DMiAU Rhyngwladol a'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer dod yn Asiantaeth DMiAU ryngwladol a chynnal trwydded Asiantaeth DMiAU ryngwladol.

87.3 *Yr Amodau Mynediad i Addysg Uwch* - dogfennaeth gyfredol - dyma'r amodau y mae'n rhaid i Asiantaeth DMiAU barhau i'w bodloni wedi iddi lwyddo i gael ei thrwydded Asiantaeth DMiAU ar gyfer y DU. Mae'n rhaid i sefydliad sydd eisiau dod yn Asiantaeth DMiAU ddangos sut mae'n bodloni, neu sut y gallai fodloni, yr amodau hyn.

87.4 *Yr Amodau Mynediad i Addysg Uwch Rhyngwladol* - dogfennaeth arfaethedig - dyma fydd yr amodau y mae'n rhaid i Asiantaeth DMiAU barhau i'w bodloni wedi iddi lwyddo i gael ei thrwydded Asiantaeth DMiAU ryngwladol. Mae'n rhaid i sefydliad sydd eisiau dod yn Asiantaeth DMiAU ryngwladol ddangos sut mae'n bodloni, neu sut y gallai fodloni, yr amodau hyn.

88 Rydym yn ymwybodol o'r baich rheoleiddiol, a, lle bo'n bosibl, mae'r trefniadau trwyddedu ar gyfer y Diploma MiAU Rhyngwladol yn gyfatebol â'r trefniadau trwyddedu ar gyfer y DU. Pan fydd y risg uwch sy'n gysylltiedig â gweithredu'n rhyngwladol wedi cyfiawnhau defnyddio dull arall, rydym wedi cydbwyso cyfleuster gyda'r angen i benderfynu'n gywir beth yw natur ac effaith debygol unrhyw risg penodol a'r camau gweithredu sydd eu hangen i leihau'r risg hwnnw. Ein bwriad yw cefnogi Asiantaethau DMiAU i ddiogelu profiad y myfyrwyr rhyngwladol.

89 Gwahoddir Asiantaethau DMiAU i roi adborth ar y trefniadau trwyddedu, ac efallai y byddai'n ddefnyddiol iddynt gymryd cipolwg ar y telerau ac amodau ar gyfer y DU er mwyn rhoi'r trefniadau rhyngwladol yng nghyd-destun eu harferion cyfredol. I'r perwyl hwn, rydym wedi darparu'r telerau ac amodau ar gyfer y DU ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori hon.

90 Rydym yn ymgynghori ag Asiantaethau DMiAU ynglŷn â sut i gymhwyso Manyleb y Diploma a'r Cynllun Graddio i'r Diplomâu MiAU Rhyngwladol hefyd; gwnawn hyn yn yr adran *'Arferion addysgu, dysgu ac asesu'r Diploma MiAU Rhyngwladol'* (paragraffau 139 i 145).

## Cymhwyso'r Trefniadau Trwyddedu i'r Diploma MiAU Rhyngwladol

91 Y trefniadau trwyddedu yw'r trefniadau sydd gan QAA i reoli'r broses o drwyddedu Asiantaethau DMiAU. Maent yn nodi'r gofynion ar gyfer dod yn Asiantaeth DMiAU (y 'Cytundeb Trwyddedu') a chynnal trwydded Asiantaeth DMiAU.

92 Bydd gofyn i bob Asiantaeth DMiAU sydd wedi gwneud cais llwyddiannus am drwydded i weithredu mewn gwlad dramor gytuno i delerau trwyddedu ychwanegol. Bydd y rhain yn ychwanegol i'r *Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau DMiAU*[10] y maen nhw wedi cytuno iddynt gyda QAA er mwyn dod yn Asiantaeth DMiAU. Bydd y *Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch sy'n Gweithredu'n Rhyngwladol* (y 'telerau rhyngwladol') yn nodi'r telerau y mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU gytuno iddynt er mwyn cael a chadw ei thrwydded i ddilysu a dyfarnu'r Diploma Mynediad i AU i fyfyrwyr sy'n astudio mewn gwledydd y tu allan i'r DU.

93 Bydd y Telerau Rhyngwladol a'r Telerau Safonol yn cyd-fodoli'n annibynnol ar ei gilydd fel y bydd hi'n bosibl i Asiantaeth DMiAU fynd i mewn i, neu dynnu allan o, drefniant trwyddedu rhyngwladol heb unrhyw effaith ar y trefniadau ar gyfer y DU sy'n berthnasol iddi. Fodd bynnag, gallai pryderon sy'n codi ynglŷn â chydymffurfiad ag un o'r cyfresi o Delerau beri i QAA ymchwilio cydymffurfiad ar draws gweithredoedd yr Asiantaethau DMiAU yn y DU a thramor. Gallai fod yn bosibl hefyd i Asiantaeth DMiAU dorri'r Telerau Rhyngwladol er ei bod yn cydymffurfio â'r Telerau Safonol. Mewn achosion o'r fath, mae'n bosibl y gellir defnyddio monitro manylach neu sancsiynau gyda gweithredoedd rhyngwladol ond nid gweithredoedd yn y DU. Mae hyn wedi ei drafod ymhellach yn yr adran *'Cymhwyso'r Trefniadau Monitro i'r Diploma MiAU Rhyngwladol'*.

94 Mae testun arfaethedig y *Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau DMiAU sy'n Gweithredu'n Rhyngwladol* yn Atodiad B y ddogfen hon a gwahoddwn eich adborth amdanynt yn rhan o'r ymgynghoriad hwn. Maen nhw'n deillio o *Delerau Safonol* y trwyddedau ar gyfer y DU, a bydd gofyn i Asiantaethau DMiAU sydd eisiau gweithredu y tu allan i'r DU ufuddhau i'r ddwy gyfres o Delerau.

94.1 Mae Adran 1 yn cynnwys cyfeiriadau at y Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol (y 'Diploma MiAU Rhyngwladol neu'r 'Diploma Rhyngwladol') a nodau masnach a nodau geiriau rhyngwladol.

94.2 Ychwanegwyd y gair 'rhyngwladol' drwy Adran 2 i gyd. Ailddiffiniwyd cydnabyddiaeth i olygu cydnabyddiaeth gan lywodraethau a sefydliadau addysg uwch at ddibenion cynnydd yn hytrach nag ariannu er y bydd hyn yn parhau'n ffocws gan QAA. Y rheswm am hynny yw'r amrywiaeth o systemau addysgol a chyllidol y bydd Trwydded Ryngwladol yn ei chynnwys.

94.3 Mae Adran 3 yn nodi'r *Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch sy'n Gweithredu'n Rhyngwladol* a fydd yn bodoli ochr yn ochr â'r *Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch*. (Mae Adran 10 yn gofyn glynu at y ddwy gyfres o Delerau, ac felly, mae'n rhaid i'r Asiantaeth DMiAU fod â thrwydded ar gyfer y DU er mwyn bod yn gymwys i gael trwydded ryngwladol).

94.4 Mae Adran 4 yn amlinellu'r Dogfennau Rheoleiddiol sy'n cynnwys dogfennau penodol ar wahân ar gyfer trefniadau trwyddedu'r Diploma MiAU Rhyngwladol a thelerau ac amodau'r Drwydded Ryngwladol. I leihau'r baich rheoleiddiol, mae'r rheiny'n gyfatebol â'r trefniadau ar gyfer y DU ac, mewn rhai achosion,

[10] https://www.qaa.ac.uk/cy/mynediad-i-au/adnoddau-yn-ymwneud--acirc--mynediad-i-au/meini-prawf-trwyddedu-mynediad-i-au

mae modd addasu dogfennau sy'n bodoli'n barod (e.e. y *Gofynion ar gyfer defnyddio'r nodau masnach Mynediad i AU*) i gynnwys trefniadau rhyngwladol.

94.5 Mae Adrannau 5 i 9 yn gyfatebol i raddau mawr â'r telerau ar gyfer y DU yn gyffredinol, ac ychwanegwyd y gair 'rhyngwladol' mewn rhai mannau.

94.6 Mae Adran 10 yn gofyn ymlyniad â'r *Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch* a'r *Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch sy'n Gweithredu'n Rhyngwladol*. Felly, mae'n rhaid i'r Asiantaeth DMiAU fod â thrwydded ar gyfer y DU er mwyn bod yn gymwys i gael trwydded ryngwladol. Mae QAA yn ystyried bod hyn yn bwysig er mwyn sicrhau ansawdd y Diploma MiAU Rhyngwladol. I egluro, mae'r telerau hynny ar gyfer y DU sy'n ymwneud â hunaniaeth, cyfansoddiad a threfniadau llywodraethu'r Asiantaeth DMiAU wedi eu cadw fel is-gymalau yn y Telerau Rhyngwladol. Mae goblygiadau gan hyn ar gyfer trefn y rhifau dilyniannol i delerau a chroesgyfeiriadau.

94.7 Mae Adran 11 yn parhau heb ei newid yn gyffredinol, ac eithrio ychwanegu'r gair 'rhyngwladol' a chyfeirio at *y Trefniadau ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau DMiAU sy'n Gweithredu'n Rhyngwladol*. O dan y Telerau Safonol ar gyfer y DU, gofynnir i bob Asiantaeth DMiAU roi gwybod i QAA am unrhyw newidiadau arfaethedig yn ei pherchnogaeth. Yn ogystal, bydd gofyn i bob Asiantaeth DMiAU Rhyngwladol roi gwybod i QAA am unrhyw newidiadau sylweddol yn ei strwythur cyfundrefnol a allai effeithio ar ei gweithredoedd rhyngwladol.

94.8 Mae Adrannau 12 i 13 yn parhau heb eu newid yn gyffredinol, ac eithrio ychwanegu'r gair 'rhyngwladol' a chyfeirio at *y Trefniadau ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau DMiAU sy'n Gweithredu'n Rhyngwladol*.

94.9 Yn Adran 14, ychwanegwyd un arall at y telerau sy'n nodi y gall QAA derfynu'r Drwydded Ryngwladol os bydd trwydded yr Asiantaeth DMiAU ar gyfer y DU yn cael ei therfynu. Mae hyn yn alinio ag Adran 10 a'r gofyniad i Asiantaeth DMiAU sy'n gweithredu'n rhyngwladol hefyd ddal trwydded ar gyfer y DU.

94.10 Erbyn hyn, mae Adran 15 yn cyfeirio at y Trefniadau ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau DMiAU sy'n Gweithredu'n Rhyngwladol.

## Cymhwyso'r Amodau Mynediad i AU i'r Diploma MiAU Rhyngwladol

95 Yr Amodau Trwyddedu yw'r amodau y mae'n rhaid i Asiantaeth DMiAU barhau i'w bodloni wedi iddi lwyddo i gael trwydded Asiantaeth DMiAU. Mae'n rhaid i sefydliad sydd eisiau dod yn Asiantaeth DMiAU ddangos sut mae'n bodloni, neu sut y gallai fodloni, yr amodau hyn.

96 Rydym wedi adolygu pob un o'r Amodau Trwyddedu cyfredol ar gyfer y DU ac rydym wedi nodi chwe amod sydd angen eu haddasu er mwyn bod yn effeithiol o ran sicrhau ansawdd y Diploma MiAU Rhyngwladol o ystyried cymhlethdodau darpariaeth ryngwladol. Felly, rydym yn cynnig cyfres o amodau newydd ar gyfer y Diploma MiAU Rhyngwladol. I leihau'r baich rheoleiddiol, bydd y rhain yn gyfatebol â'r Amodau Trwyddedu ar gyfer y DU.

97 Dylai pob Asiantaeth DMiAU nodi y bydd gofyn i bob Asiantaeth DMiAU sydd eisiau gweithredu'n rhyngwladol ystyried a chydymffurfio â'r Amodau Trwyddedu ar gyfer y DU mewn perthynas â'i gweithredoedd yn y DU, yn ogystal â'r Amodau Trwyddedu Rhyngwladol mewn perthynas â'i gweithredoedd ym mhob gwlad arall.

98 Bydd y rhagair am yr Amodau Trwyddedu Rhyngwladol (a fydd wedi ei seilio ar yr Amodau Trwyddedu cyfredol ar gyfer y DU) yn cynnwys testun cyflwyniadol mewn perthynas â chylch gwaith QAA a'r Cynllun Cydnabod a'i bwrpas, yn ogystal â diffiniadau allweddol. Mae'r newidiadau yr ydym yn eu cynnig yma wedi eu cyfyngu i addasiadau cyd-destunol sy'n symud ffocws y ddogfen

o'r ddarpariaeth ar gyfer y DU i'r ddarpariaeth ryngwladol, er enghraifft, drwy ychwanegu'r gair 'rhyngwladol' at y gair 'trwydded' a rhoi'r teitl cymhwyster 'Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol' neu 'Ddiploma MiAU Rhyngwladol' yn lle'r teitl 'Diploma Mynediad i AU'.

99 Dyma'r addasiadau penodol a gynigir gennym:

99.1 **A2.2**: Mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU fod â Datganiad Strategol am ei rôl fel Asiantaeth DMiAU, wedi ei gymeradwyo gan QAA. Wrth baratoi ei Datganiad Strategol, mae'n rhaid i'r Asiantaeth DMiAU sicrhau bod y canlynol wedi cyfrannu at gynnwys ei Datganiad:

- darparwyr sy'n cynnig y Diploma MiAU Rhyngwladol, a
- *'darparwyr addysg uwch yn y gwledydd y maent yn gweithredu ynddynt'*

**Newid:** Addasiad - y testun gwreiddiol oedd *'darparwyr addysg uwch yn y DU'*.

**Rhesymeg:** Newid syml i adlewyrchu cwmpas yr amodau rhyngwladol.

**Sylw:** I leihau'r baich, bydd gofyn i bob Asiantaeth DMiAU gyflwyno un Datganiad Strategol yn flynyddol sy'n ymwneud â'i gweithredoedd yn y DU a thramor fel ei gilydd.

99.2 **A2.3**: Mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU roi datganiad blynyddol am gydymffurfiad i QAA *mewn perthynas â phob trwydded sydd ganddi*.

**Newid:** Ehangiad - nid oedd y testun gwreiddiol yn cynnwys yr ail ymadrodd (mewn print italig).

**Rhesymeg:** Bydd cytundebau trwyddedu ar wahân yn eu lle ar gyfer gweithredoedd yn y DU a thramor, gan olygu bod angen Datganiad am Gydymffurfiad ar gyfer pob un.

**Sylw:** I leihau'r baich yn ystod y cyfnod peilot, pan fydd gan Asiantaeth DMiAU nifer o drwyddedau o bosib (un drwydded i bob gwlad), caniateir iddi gyflwyno un Datganiad am Gydymffurfiad sy'n ymwneud â'i holl weithredoedd rhyngwladol, yn ogystal â'r Datganiad am Gydymffurfiad gofynnol ar gyfer ei gweithredoedd yn y DU.

99.3 **C1.1**: Mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU sefydlu a gweithredu gweithdrefn wedi ei dogfennu ar gyfer cymeradwyo darparwyr i ddarparu cyrsiau Diploma Mynediad i AU. Rhaid i'r weithdrefn hon gynnwys gofyniad i bob darparwr a gymeradwyir i ddarparu Diplomâu Mynediad i AU feddu ar y canlynol:

- *systemau i sicrhau bod gan unigolion sydd heb hawl gyfreithiol i aros yn y wlad hon (e.e. drwy ddinasyddiaeth) y fisâu cywir (neu ganiatâd arall) cyn iddyn nhw gofrestru*
- *systemau i sicrhau mai dim ond myfyrwyr sy'n gallu elwa o ddysgu, addysgu ac asesu drwy gyfrwng y Saesneg sy'n gofrestredig ar gyfer Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol*
- *systemau i sicrhau bod y myfyrwyr, erbyn adeg y dyfarnu, yn gallu dangos gallu yn y Saesneg sy'n gydradd â lefel B2 Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd.*

**Newid:** Dileadau - dilëwyd cymal yn ymwneud â lleoliadau'r darparwyr; dilëwyd cymal yn ymwneud â chyfeiriadau cartref y myfyrwyr; Ychwanegion - ychwanegwyd

cymal yn ymwneud â gofynion fisa; ychwanegwyd cymalau sy'n ymwneud â gallu'r myfyriwr yn y Saesneg ar adegau cofrestru a dyfarnu.

**Rhesymeg:** Mae'r newidiadau'n agor y farchnad i amrywiaeth o ddarpar ddarparwyr, ac yn ehangu mynediad y myfyrwyr, yn unol â'n cenhadaeth ac mewn ymateb i symudedd rhyng-ranbarthol cynyddol, er enghraifft yn Asia[11]. Mae gallu yn y Saesneg yn cael goblygiadau sylweddol ar fisâu a bydd hyn yn effeithio ar allu'r myfyrwyr i fynd i mewn i addysg drawswladol y DU, ac i rai sectorau cyflogaeth lle mae gofynion cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio'n berthnasol (gwelwch baragraffau 127 i 131).

**Sylw:** Ar hyn o bryd, nid ydym yn gweld unrhyw reswm dros atal myfyrwyr sy'n talu am eu cyrsiau eu hunain rhag astudio mewn unrhyw wlad lle mae ganddynt gymhwysedd fisa i wneud hynny. Byddwn yn gofyn i Asiantaethau DMiAU gasglu gwybodaeth am gefndir ethnig y myfyrwyr yn rhan o'r adroddiadau data rheolaidd. Ni fydd QAA yn casglu data am fisâu a mewnfudo ond gallai'r manylion hynny hysbysu strategaeth farchnata'r darparwr.

99.4 **D1.2**: *Mae'n rhaid i ddysgu, addysgu ac asesu ddigwydd wyneb yn wyneb yn llwyr neu wedi eu cyfuno â dysgu o bell hyd at gyfran benodol os bydd hi'n ymddangos y byddai hynny'n rhoi manteision clir i'r myfyrwyr. Caniateir darparu drwy ddulliau darparu o bell yn llwyr dan amgylchiadau eithriadol:*

- *lle byddai parhad darpariaeth addysg wedi ei amharu fel arall gan amgylchiadau nad oedd modd eu rhagweld*
- *fel addasiad rhesymol i dynnu neu leihau anfantais oherwydd unrhyw gyflyrau iechyd neu anableddau sydd gan y myfyriwr unigol.*

**Newid:** Ychwanegyn: ychwanegwyd cymal newydd at y cymalau cyfredol am hygyrchedd.

**Rhesymeg:** Fel y nodwyd ym mharagraffau 131 i 140, dylai'r Diploma MiAU Rhyngwladol ddarparu cyfleoedd dysgu wyneb yn wyneb yn y dosbarth a gellir cyfuno hyn â dysgu o bell os bydd rhesymau dilys dros wneud hynny.

**Sylw:** Bydd gan Asiantaethau DMiAU yr hyblygrwydd i ddilysu cyrsiau lle addysgir hyd at 40% o'r cynnwys o bell; nid ydym wedi gosod trothwy penodol yn yr Amodau er mwyn sicrhau bod modd gwneud adolygiad yn y dyfodol (mewn canllawiau) mewn ymateb i ddatblygiadau technolegol. Rydym yn atgoffa'r Asiantaethau DMiAU am eu dyletswyddau sy'n deillio o gymalau eraill o dan D1.2 mewn perthynas â'u dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a bydd hyn yn berthnasol i'r Diploma MiAU Rhyngwladol hefyd.

99.5 **D2.1**: Mae panel dilysu'n banel o aelodau sydd, ar y cyd, yn darparu profiad ac arbenigedd cyfredol a pherthnasol mewn:

- gwybodaeth am y cwricwlwm sy'n berthnasol i'r Diploma/Diplomâu a'r holl unedau sy'n cael eu hystyried, *gan roi sylw dyledus i'r cyd-destun lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, ac i wahaniaethau cymdeithasol a diwylliannol.*
- *dulliau dysgu, addysgu ac asesu effeithiol, hygyrch a diwylliannol sensitif yn y dosbarth neu mewn amgylcheddau dysgu cyfunol fel y bo'n briodol.*

**Newid:** Mewn perthynas â'r diffiniad o'r term 'panel dilysu', ymestynnwyd un is-gymal ac ychwanegwyd un is-gymal newydd.

[11] https://opportunities-insight.britishcouncil.org/short-articles/reports/intra-regional-mobility-east-asia

**Rhesymeg:** Mae'r Amodau'n awr yn gofyn yn eglur am roi ystyriaeth i'r cyd-destun lleol, cymdeithasol a diwylliannol. Cyn hyn, roedd hynny'n ymhlyg.

**Sylw:** Y bwriad yw sicrhau y rhoddir sylw dyledus i faterion o'r fath, yn enwedig lle mae Diploma cyfredol wedi ei allforio fel Diploma MiAU Rhyngwladol.

99.6 **D2.3**: Dylai'r trefniadau hyn ganiatáu i Asiantaethau DMiAU sicrhau bod profiadau'r myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gyrsiau Diploma Mynediad i AU a gynigir gan ddarparwyr rhyngwladol yn:

– gyfartal - o leiaf yn gydradd o ran safon i brofiadau'r myfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau *yn y DU*

– gyson - darperir y rhaglen astudio gan athrawon cymwysedig mewn ffordd sydd o leiaf yn gyfatebol â darpariaeth sefydliadau eraill sy'n cynnig Diplomâu'r Asiantaeth DMiAU

– gadarn - mae'r profiad addysgol o leiaf yr un mor sicr ag ydyw ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n astudio mewn sefydliadau *yn y DU*.

**Newid:** Addaswyd dau is-gymal i gynnwys y geiriau '*yn y DU*'. Roedd testun gwreiddiol yr is-gymal cyntaf yn cynnwys *"o leiaf yn gydradd o ran safon i brofiadau'r myfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau sy'n atebol i gael eu harolygu'n allanol gan gyrff eraill"*. Roedd testun gwreiddiol yr ail is-gymal yn cynnwys *"mewn sefydliadau a gyllidir yn draddodiadol"*.

**Rhesymeg:** Mae'r trefniadau ar gyfer y DU yn sicrhau cydraddoldeb rhwng gwahanol fathau o sefydliadau yn y DU. Mae'r addasiadau'n symud y ffocws er mwyn sicrhau cydraddoldeb byd-eang gyda'r DU.

**Sylw:** Mae QAA yn datblygu ei chronfa ddata a'i meysydd casglu data i hwyluso monitro ac asesu'r Diploma MiAU Rhyngwladol.

## Cymhwyso'r Trefniadau Monitro i'r Diploma MiAU Rhyngwladol

100 Er mwyn sicrhau bod Asiantaethau DMiAU yn gallu bodloni Telerau ac Amodau eu trwydded ryngwladol, mae QAA yn gyfrifol am wneud asesiadau sy'n rhoi sicrwydd bod Diplomâu MiAU Rhyngwladol yn cael eu dilysu, eu darparu a'u dyfarnu mewn ffordd sy'n gyson â gofynion ei Chynllun Cydnabod. Mae adran B yr Amodau'n nodi cylch gwaith yr Asiantaeth DMiAU o ran monitro a darparu gwybodaeth, ac mae rhagor o fanylion yn y *Trefniadau Monitro ar gyfer Mynediad i AU*[12].

101 Bydd y trefniadau monitro ar gyfer y Diploma MiAU Rhyngwladol yn gyfatebol â'r rheiny a ddefnyddir i fonitro'r ddarpariaeth yn y DU. Mae'r pwyslais yn parhau ar gasglu data i hysbysu asesiadau dibynadwy o gydymffurfiad a risg, cymhwyso beirniadaethau rheoleiddio a, lle bo'n briodol, gyhoeddi gwybodaeth am y beirniadaethau hynny.

102 Nod y trefniadau monitro yw:

102.1 cynnal dilysrwydd y Diploma MiAU Rhyngwladol

102.2 cefnogi myfyrwyr i symud ymlaen i addysg uwch ac i lwyddo yn y maes hwn

102.3 sicrhau bod y Diploma'n parhau'n berthnasol a chefnogi ei dwf

[12] https://www.qaa.ac.uk/cy/mynediad-i-au/adnoddau-yn-ymwneud--acirc--mynediad-i-au/meini-prawf-trwyddedu-mynediad-i-au

103 Asesir cydymffurfiad ar sail amryw ffynonellau o wybodaeth a gesglir yn bennaf drwy drefniadau rhagnodedig lle mae'r Asiantaeth DMiAU yn cytuno i gyflwyno darnau penodol o wybodaeth i QAA o dan amgylchiadau penodol. Yn ôl y trefniadau ar gyfer y DU, caiff trwyddedau rhyngwladol eu monitro ar ddwy lefel benodol - monitro cyffredinol a monitro manylach.

104 Diffinnir monitro cyffredinol yn fras fel gweithgareddau monitro sy'n rhagweladwy, wedi'u cynllunio neu na chânt eu gwneud ar sail asesiad risg. Bydd trefniadau monitro lefel gyffredinol yn berthnasol i bob Asiantaeth DMiAU sy'n gweithredu dramor, a byddant yn cynnwys proses adolygu gylchol, digwyddiadau hysbysadwy a'r broses o gasglu unrhyw wybodaeth arall.

105 **Proses adolygu gylchol** - gweithgareddau monitro wedi'u hamserlennu i gyd-daro â'r trefniadau ar gyfer y DU. Er bod elfennau tebyg yn y broses adolygu gylchol, bydd y trefniadau monitro ar gyfer y Diploma MiAU Rhyngwladol a'r rheiny ar gyfer y DU yn cael eu trin fel gweithdrefnau ar wahân, sy'n gofyn cyflwyniadau arwahanol ac annibynnol. Bydd gofyn i bob Asiantaeth DMiAU sy'n gweithredu'n rhyngwladol baratoi un cyflwyniad ar gyfer ei gweithredoedd yn y DU, ac un cyflwyniad arall sy'n ymwneud â'i holl weithredoedd rhyngwladol. Byddwn yn ychwanegu maes data newydd at y ffurflen gasglu data ac yn rhoi arweiniad i'r Asiantaethau DMiAU ar sut i lenwi'r maes hwn.

106 Mae'n debyg y bydd y cyflwyniad ar gyfer gweithredoedd rhyngwladol yn cynnwys (ond ni fyddent wedi eu cyfyngu i):

106.2 datganiad am gydymffurfiad â'r amodau trwyddedu rhyngwladol

106.3 data am y garfan dysgwyr a chyrchfannau'r ymadawyr ar gyfer gwlad benodol - mae'r meysydd arfaethedig ar gyfer casglu data wedi eu nodi yn Atodiad C.

107 Yn ogystal, dylai'r Asiantaethau DMiAU sicrhau bod eu strategaethau ar gyfer sicrhau parhad busnes yn adlewyrchu gweithredoedd rhyngwladol a chynlluniau wrth gefn cysylltiedig, a bod eu datganiad strategol yn ystyried eu hamcanion rhyngwladol.

108 **Digwyddiadau hysbysadwy** - fel y mae wedi ei nodi yn Amod B1, mae gofyn i bob Asiantaeth DMiAU roi gwybod i QAA am unrhyw ddigwyddiad hysbysadwy sydd, yn ei barn resymol hi, wedi digwydd, neu'n debygol o ddigwydd. Digwyddiad hysbysadwy yw unrhyw ddigwyddiad gwirioneddol neu bosibl sydd, ym marn resymol QAA, yn cael, neu a allai gael, effaith negyddol ar allu'r Asiantaeth DMiAU i fodloni telerau ei thrwydded ryngwladol neu gydymffurfio â'r Amodau Rhyngwladol.

109 Byddwn yn cyflwyno canllawiau i helpu Asiantaethau DMiAU benderfynu pa bethau y dylid, a pha bethau na ddylid, adrodd amdanynt. Yn ystod y cyfnod peilot, bydd angen bod yn ofalus wrth gofnodi ac adrodd am ddigwyddiadau er mwyn sicrhau bod problemau'n cael eu canfod a'u datrys yn brydlon ac yn effeithiol. Bydd hyn yn diogelu'r rhanddeiliaid, a thwf y Diploma MiAU Rhyngwladol yn y dyfodol. Trwy rannu gwybodaeth yn agored, bydd Asiantaethau DMiAU a QAA yn gallu dysgu o ddigwyddiadau pan maen nhw'n codi a datblygu dulliau priodol o leihau digwyddiadau o'r fath a gostwng eu heffaith. Am y rheswm hwn, er y bydd rhai pethau'n gyffredin yn natur digwyddiadau hysbysadwy ble bynnag y maent yn digwydd yn y byd, efallai y bydd y trothwyon ar gyfer penderfynu am ba bethau y dylid adrodd yn amrywio rhwng y trefniadau ar gyfer y DU a'r trefniadau rhyngwladol.

110 **Gwybodaeth a data eraill** - mae hyn yn cyfeirio at unrhyw wybodaeth neu ddata y mae QAA yn eu derbyn neu'n dod yn ymwybodol ohonynt drwy weithredu'r Cynllun Cydnabod - megis pryderon a godir gan randdeiliaid neu yn y cyfryngau - sy'n ein harwain at ddod i'r casgliad nad yw un o'r Asiantaethau DMiAU o bosib yn cydymffurfio â'r telerau a gofynion ei Thrwydded Ryngwladol. Wrth gyflwyno'r Diploma MiAU Rhyngwladol, mae'n rhaid i ni weithredu dulliau rheoleiddio effeithiol sy'n gweithio i'r holl randdeiliaid, er mwyn sicrhau dilysrwydd a dibynadwyedd y Diploma Mynediad i AU yn y tirlun cymwysterau rhyngwladol. Lle bo modd, byddwn yn tynnu

gwybodaeth o ffynonellau sy'n bodoli'n barod er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu ymdrech dianghenraid ac i leihau'r baich gwaith ar yr Asiantaethau DMiAU. Byddwn yn gwneud penderfyniadau deallus o ran faint o wybodaeth fydd yn ofynnol fel bod y diben a'r nod yn eglur. Byddwn yn gwahaniaethu'n glir rhwng ceisiadau am wybodaeth sy'n ymwneud â'r trefniadau ar gyfer y DU, a'r rheiny sy'n ymwneud â'r trefniadau rhyngwladol.

111 **Trefniadau monitro lefel uwch** - defnyddir y trefniadau hyn lle canfyddir, drwy drefniadau monitro lefel gyffredinol, bod risg uwch yn bodoli o ddiffyg cydymffurfiad gwirioneddol, neu o ddiffyg cydymffurfiad posibl, â thelerau'r Cytundeb Trwyddedu Rhyngwladol a/neu'r Amodau Trwyddedu Rhyngwladol. Er y bydd gofyn i'r Asiantaethau DMiAU baratoi cyflwyniadau ar wahân ar gyfer eu gweithredoedd yn y DU a'u gweithredoedd dramor at ddibenion monitro cyffredinol, ac y bydd y canlyniadau a geir o'r prosesau hynny'n rhai ar wahân, lle gwelir bod risg o ddiffyg cydymffurfiad gwirioneddol, neu o ddiffyg cydymffurfiad posibl, mewn perthynas ag un drwydded, gallai trefniadau monitro ac ymgysylltu manylach gael eu cychwyn mewn perthynas â thrwydded arall.

112 **Ymchwiliad** - gallai QAA benderfynu cychwyn ymchwiliad lle canfyddir risg uwch o ddiffyg cydymffurfiad posibl â gofynion y Drwydded Ryngwladol neu un neu fwy o'r Amodau Trwyddedu Rhyngwladol, neu lle canfyddir achosion gwirioneddol o ddiffyg cydymffurfiad. Os bydd QAA yn cychwyn ymchwiliad, mae'n debygol y bydd y penderfyniad hwn wedi ei seilio ar ganlyniadau gweithgareddau monitro eraill. Pan fydd costau i'w talu am gyfieithu (e.e. oherwydd bod angen cyfathrebu â darparwyr neu ddysgwyr yn uniongyrchol) bydd y rhain wedi eu cynnwys yn y ffioedd am wneud ymchwiliadau.

113 O dan y *Telerau Safonol*, efallai y bydd gofyn i'r Asiantaeth DMiAU dalu ffioedd ychwanegol am unrhyw weithgareddau nad ydynt yn rhan o'r prosesau cyffredinol o fonitro Asiantaethau DMiAU. Gellir gwneud monitro manylach ac ymchwiliadau unrhyw bryd lle mae pryder digonol na fyddai'r Asiantaeth DMiAU yn cydymffurfio, neu y byddai mewn perygl o fethu cydymffurfio, â gofynion ei thrwydded a gellir eu defnyddio ar gyfer:

113.1 un neu fwy o wledydd, yn y DU neu dramor

113.2 un neu fwy o drwyddedau'r Asiantaeth DMiAU, gan gynnwys trwyddedau ar gyfer y DU a thrwyddedau rhyngwladol.

## Cymhwyso'r ymyriadau rheoleiddio i'r Diploma MiAU Rhyngwladol

114 Bydd unrhyw feirniadaethau rheoleiddio sy'n deillio o drefniadau monitro rhyngwladol yn sefyll ar wahân i'r rheiny sy'n deillio o drefniadau ar gyfer y DU, a byddent yn ymwneud yn benodol â'r drwydded ryngwladol neu'r trwyddedau rhyngwladol dan sylw. Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle gwnaethpwyd ymchwiliad cyfunol i gydymffurfiad ar draws y trefniadau ar gyfer y DU a hefyd y trefniadau rhyngwladol. Byddai ymchwiliad o'r fath yn diweddu gyda beirniadaeth reoleiddio am y trefniadau ar gyfer y DU a beirniadaeth reoleiddio ar wahân am y trefniadau rhyngwladol. Yn ystod ei chyfnod peilot, pan fydd gan Asiantaeth DMiAU nifer o drwyddedau o bosib (un drwydded i bob gwlad), defnyddir un feirniadaeth reoleiddio i ddisgrifio'r holl weithredoedd o dan y trwyddedau hynny.

115 Bydd unrhyw ymyriadau rheoleiddio sy'n deillio o drefniadau monitro rhyngwladol yn sefyll ar wahân i'r rheiny sy'n deillio o drefniadau ar gyfer y DU, a byddent yn ymwneud yn benodol â'r drwydded neu'r trwyddedau dan sylw. Dyma'r ymyriadau rheoleiddio ar gyfer ymchwiliad: hysbysiad ffurfiol, gorfodi unrhyw amod penodol neu orfodi sancsiynau ffurfiol. Gallai sancsiynau ffurfiol gynnwys:

114.1 rhoi cyfyngiadau ar drwydded ryngwladol yr Asiantaeth DMiAU

114.2 atal trwydded ryngwladol Asiantaeth DMiAU dros dro

114.3 tynnu trwydded ryngwladol Asiantaeth DMiAU yn ei hôl.

116 Bydd tynnu'r drwydded ar gyfer y DU yn ei hôl yn achosi i unrhyw drwydded ryngwladol gael ei thynnu yn ei hôl yn awtomatig oherwydd y gofyniad i bob Asiantaeth DMiAU fod â thrwydded ar gyfer y DU er mwyn bod yn gymwys i gael trwydded ryngwladol (gwelwch baragraff 58). Fodd bynnag, efallai na fydd tynnu'r drwydded ryngwladol yn ei hôl yn golygu bod yn rhaid tynnu'r drwydded ar gyfer y DU yn ei hôl os nad oes tystiolaeth o bryder yn ymwneud â gweithredoedd yr Asiantaeth DMiAU yn y DU.

117 Os bydd QAA yn atal y drwydded ar gyfer y DU dros dro, caiff pob trwydded ryngwladol ei hatal dros dro hefyd, os bydd QAA o'r farn ei bod hi'n briodol cymryd camau gweithredu i leihau ar unwaith yr effaith y mae'r diffyg cydymffurfio sy'n achosi pryder yn ei chael ar y myfyrwyr rhyngwladol, y rhanddeiliaid neu'r Diploma MiAU Rhyngwladol.

118 Mewn sefyllfaoedd lle mae ymchwiliad cyfunol wedi ei wneud i gydymffurfiad ar draws y trefniadau ar gyfer y DU a'r trefniadau rhyngwladol, gallai'r ymchwiliad ddod i'r casgliad y dylid defnyddio un gyfres o ymyriadau neu sancsiynau ar gyfer y drwydded ryngwladol, a chyfres arall i'r drwydded ar gyfer y DU. Yn ystod cyfnod peilot, pan fydd gan Asiantaeth DMiAU nifer o drwyddedau o bosib (un drwydded i bob gwlad), bydd ymyriadau a sancsiynau'n berthnasol i bob trwydded unigol.

119 I fod yn glir, gallai canfyddiadau un ymchwiliad cyfunol a wneir gan QAA i achos gwirioneddol neu bosibl o dorri'r trefniadau trwyddedu ar gyfer y DU yn ogystal â'r trefniadau trwyddedu rhyngwladol achosi un canlyniad i drwydded ar gyfer y DU, ac un arall i drwydded ryngwladol. Yn ystod y cyfnod peilot, bydd beirniadaethau rheoleiddio'n berthnasol i'r trwyddedau i gyd, ond gwneir penderfyniadau ynglŷn ag ymyriadau yn ôl y drwydded unigol. Bydd hyn yn sicrhau bod ein hymyriadau rheoleiddio'n ddigon graddol a'u bod:

119.1 **wedi eu blaenoriaethu** - h.y. yn canolbwyntio ar faterion sy'n peri risgiau i'r myfyrwyr, y rhanddeiliaid neu'r cymhwyster mewn lleoliad penodol

119.2 yn **gymesur** - h.y. yn cymryd camau sy'n gymesur â'r lledaeniad daearyddol a lefel risg a llymder yr achos o ddiffyg cydymffurfiad ac yn cymryd i ystyriaeth y camau a gymerir gan yr Asiantaeth DMiAU i leihau risgiau a'r effeithiau ar y myfyrwyr yn y lleoliad penodol

119.3 **wedi eu targedu** - h.y. yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r risgiau arbennig sy'n codi

119.4 **yn eglur** - bydd QAA yn esbonio'n glir beth yw'r rhesymau dros wneud ymyriad a'r camau gweithredu y mae gofyn i'r Asiantaeth DMiAU eu cymryd mewn perthynas â phob gwlad benodol

119.5 **yn atebol** - bydd QAA yn atebol am y penderfyniadau a wneir ganddi, ac am eu hesbonio i'r Asiantaethau DMiAU perthnasol, a rhanddeiliaid rhyngwladol eraill, fel y bo'n briodol.

## Y cwestiynau ymgynghorol

**C10.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y ffordd y mae'r Amodau Mynediad i AU yn cael eu cymhwyso i weithredoedd rhyngwladol Asiantaethau DMiAU?

**C11.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y ffordd y mae'r Trefniadau Monitro'n cael eu cymhwyso i weithredoedd rhyngwladol Asiantaethau DMiAU?

**C12.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y ffordd y mae'r ymyriadau rheoleiddio'n cael eu cymhwyso i weithredoedd rhyngwladol Asiantaethau DMiAU?

**C13.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau eraill am yr adran hon o'r ymgynghoriad?

# Arferion addysgu, dysgu ac asesu'r Diploma MiAU Rhyngwladol

120 Rydym yn bwriadu cynnwys amod sy'n gofyn i bob Asiantaeth DMiAU sefydlu a gweithredu gweithdrefnau i sicrhau bod y cymhwyster yn parhau i fod yn gydradd â chymhwyster lefel 3 y DU lle bynnag y mae'n cael ei ddarparu. Yn yr adran hon, rydym hefyd yn canolbwyntio ar ofynion penodol yr ydym yn bwriadu eu gorfodi o ran gallu'r myfyrwyr yn y Saesneg i'w galluogi i symud ymlaen i mewn i addysg uwch y DU, ynghyd â'r dulliau darparu - oherwydd ystyriwn fod y rhain yn cael effaith ddirfawr ar ansawdd y cwrs, profiad y myfyrwyr a deilliannau dysgu'r myfyrwyr. Mae'r adran hon hefyd yn ymwneud â chymhwyso Manyleb y Diploma a'r Cynllun Graddio i'r Diploma MiAU Rhyngwladol.

## Cydraddoldeb â chymwysterau lefel 3 yn y DU

121 Mae cymwysterau lefel 3 yn cynrychioli cam sylweddol mewn datblygiad addysgol a gyrfaol, sy'n gofyn bod â dealltwriaeth ddyfnach o'r maes astudio a'r gallu i gymhwyso gwybodaeth a sgiliau mewn sefyllfaoedd mwy cymhleth a heriol. Ymysg yr enghreifftiau o gymwysterau lefel 3 yn y DU mae Diplomâu Mynediad i AU, Lefelau A, Diplomâu BTEC Cenedlaethol ac Estynedig, Lefelau T a Diplomâu Uwch Bagloriaeth Cymru.

122 Pan fydd yr Asiantaeth DMiAU wedi dilysu a chymeradwyo Diploma i'w darparu'n rhyngwladol, bydd yn rhaid iddi ddiweddaru cronfa ddata QAA er mwyn sicrhau bod QAA yn gallu cwblhau cofrestriadau gorfodol gyda'r awdurdodau mewn gwledydd tramor.

123 Wrth ddatblygu Diploma, dylai'r Asiantaeth DMiAU ymgyfarwyddo ag unrhyw ddisgrifwyr lefel ar gyfer cymwysterau yn y wlad dramor honno sy'n gyfatebol â lefel 3 yn y DU. Bydd hyn yn cefnogi cludadwyedd y cymhwyster a'i gydnabyddiaeth gan ddarpar gyflogwyr a sefydliadau addysg uwch yn y wlad dramor honno.

124 Ar yr un pryd, dylai'r Diploma gyfateb â disgrifwyr lefel 3 y DU (fel y diffinnir gan y Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau (Ofqual) a Chymwysterau Cymru) i sicrhau cydraddoldeb â chymwysterau lefel 3 a reoleiddir eraill yn y DU. Bydd hyn yn cefnogi cludadwyedd y cymhwyster a'i gydnabyddiaeth gan ddarpar gyflogwyr a sefydliadau addysg uwch sy'n gweithredu yn y DU neu sy'n gweithredu'n rhyngwladol. Dylai deilliannau'r cwrs sicrhau bod unrhyw fyfyriwr y dyfernir y Diploma iddynt wedi cyflawni'r disgrifwyr gwybodaeth a sgiliau ar gyfer lefel 3.
Dyma ddisgrifwyr enghreifftiol:

125

| **Y disgrifydd gwybodaeth** (y Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig, a'r Fframweithiau Credydau a Chymwysterau) | **Y disgrifydd sgiliau** (y Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig, a'r Fframweithiau Credydau a Chymwysterau) | **Y disgrifydd annibyniaeth feirniadol ac atebolrwydd** (Fframweithiau Credydau a Chymwysterau yn unig) |
|---|---|---|
| • Mae gan y daliwr wybodaeth a dealltwriaeth ffeithiol, gweithdrefnol a damcaniaethol mewn maes astudio neu waith i gwblhau tasgau a mynd i'r afael â phroblemau a allai fod yn gymhleth ac | • Mae'r daliwr yn gallu canfod, dewis a defnyddio gweithdrefnau, dulliau a sgiliau gwybyddol ac ymarferol priodol i fynd i'r afael â phroblemau a allai fod yn gymhleth ac yn anarferol, | • Mae'r daliwr yn gallu cymryd y cyfrifoldeb am gychwyn a chwblhau tasgau a gweithdrefnau, gan gynnwys, lle bo'n berthnasol, y cyfrifoldeb am oruchwylio a thywys pobl eraill. |

| | | |
|---|---|---|
| yn anarferol, er eu bod wedi eu diffinio'n dda.<br>• Mae'r daliwr yn gallu dehongli a gwerthuso gwybodaeth a syniadau perthnasol.<br>• Mae'r daliwr yn ymwybodol o natur y maes astudio neu waith.<br>• Mae'r daliwr yn ymwybodol o wahanol safbwyntiau neu ymagweddau yn y maes astudio neu waith. | er eu bod wedi eu diffinio'n dda.<br>• Mae'r daliwr yn gallu defnyddio dulliau ymchwilio priodol i hysbysu camau gweithredu.<br>• Mae'r daliwr yn gallu adolygu pa mor effeithiol oedd dulliau a chamau gweithredu. | • Mae'r daliwr yn gallu cymhwyso annibyniaeth feirniadol o fewn cyfyngiadau penodol. |

126 Bydd Asiantaethau DMiAU yn gweld bod y disgrifwyr lefel 3 uchod yn ymhlyg yn y *Cynllun Graddio Mynediad i AU* a'r safonau graddio cysylltiedig, ac wedi eu cefnogi ganddynt. Bydd hefyd yn gweld bod yr Amodau Trwyddedu'n gofyn bod aseswyr a safonwyr wedi eu galluogi i raddnodi safonau'n effeithiol er mwyn sicrhau bod asesiadau'n ddilys ac yn ddibynadwy. Mae materion yn ymwneud â chymhwyso'r Cynllun Graddio i'r Diploma MiAU Rhyngwladol wedi eu trafod ymhellach ym mharagraffau 145 i 148.

## Gofynion o ran y Saesneg

127 Yn yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn 2024, roedd yr ymatebwyr yn derbyn yn gyffredinol bod angen gofyniad o ran sgiliau Saesneg, a gofynnodd yr Asiantaethau DMiAU am hyblygrwydd i'w galluogi i wneud beirniadaethau priodol yn rhan o'r broses o recriwtio a chofrestru myfyrwyr. Nododd yr ymatebwyr fod angen ateb gofynion y Swyddfa Gartref a gofynion cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio eraill ac roedden nhw'n rhybuddio yn erbyn "gosod y bar yn rhy isel".

128 Felly, rydym yn cynnig y gofynion a ganlyn o ran y Saesneg ar gyfer y Diploma MiAU Rhyngwladol:

129 Pan fydd myfyriwr yn cael ei gofrestru ar gwrs Diploma MiAU Rhyngwladol, mae'n rhaid i'r Asiantaeth DMiAU sicrhau bod gallu a phriodoldeb cyffredinol y myfyriwr i fynd i mewn i'r cwrs wedi cael eu hasesu. Yn benodol, mae'n rhaid i'r Asiantaeth DMiAU sicrhau bod y myfyrwyr yn meddu ar sgiliau digonol yn y Saesneg i'w galluogi i gwblhau'r cwrs. Gellir cynnig addysg ychwanegol mewn Saesneg fel cwrs ar wahân ochr yn ochr â'r Diploma, ond ni ddylai fod yn rhan o'r unedau a ddilysir, o ystyried mai nod y Diploma yw hwyluso datblygiad academaidd yn hytrach nag addysgu'r Saesneg.

130 Pan fyddant wedi cwblhau eu cwrs, dylai'r myfyrwyr allu dangos gallu yn y Saesneg sy'n gydradd â lefel B2 Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd[13]. Mae hyn yn gyfatebol â gofyniad y Swyddfa Gartref i noddwyr myfyrwyr sydd eisiau mynd i mewn i addysg uwch yn Lloegr i astudio ar lefel gradd. Caniateir hyblygrwydd i Asiantaethau DMiAU benderfynu beth yw'r dull mwyaf priodol o asesu gallu yn y Saesneg.

131 Nid ydym wedi gosod y gofyniad hwn ar y lefel B1 is, sef gofyniad y Swyddfa Gartref i fyfyrwyr sy'n mynd i mewn i gyrsiau sy'n is na lefel gradd, oherwydd mae ein gwaith ymchwil

[13] www.coe.int/en/web/common-european-framework-reference-languages/home

yn dangos bod myfyrwyr fwyaf tebygol o ddefnyddio'r Diploma MiAU Rhyngwladol i astudio ar lefel gradd, ac y dylent felly fod wedi eu paratoi at lefel B2 er mwyn bod yn ddigon parod.

## Dysgu cyfunol

132 Yn ôl ein cynigion, dylid darparu'r Diploma MiAU Rhyngwladol drwy ddull dysgu cyfunol sy'n defnyddio "amrywiol ddulliau o ddarparu dysgu drwy gyfuno rhyngweithio wyneb yn wyneb[14] â gweithgareddau ar-lein"[15], a ddarperir gan ddarparwyr lleol. Gellir darparu gweithgareddau ar-lein naill ai ar yr un pryd (sy'n golygu bod y myfyrwyr a'u hathrawon yn cymryd rhan yn y gweithgareddau ar yr un pryd) neu ar wahanol adegau (sy'n golygu bod y myfyrwyr yn cymryd rhan ar wahanol adegau yn ôl eu hamserlenni unigol).

133 Yn yr ymgynghoriad cyhoeddus yn 2024, dywedodd nifer o'r ymatebwyr eu bod yn pryderu bod QAA yn rhoi'r argraff ei bod yn bwriadu cyfyngu neu wahardd dysgu wyneb yn wyneb. Nid ydym yn bwriadu gwneud hynny. Yn hytrach, rydym yn canolbwyntio ar ganfod cydbwysedd priodol rhwng darpariaeth o bell a darpariaeth wyneb yn wyneb. Nododd yr ymatebwyr bwysigrwydd diogelu dysgwyr rhag cyrsiau o safon isel a phwysigrwydd deall manteision ac anfanteision perthnasol pob un o'r dulliau. I'r perwyl hwn, awgrymwyd y dylai'r Asiantaethau DMiAU eu hunain benderfynu beth sydd fwyaf priodol i bob cyd-destun.

134 Yn ein barn ni, bydd dull cyfunol yn cyfuno'r gorau o'r ddau fyd, gan sicrhau'r manteision sy'n deillio o ryngweithio wyneb yn wyneb (megis adborth ar unwaith, cysylltiad cymdeithasol, a gweithgareddau ymarferol) gan hefyd ymgorffori hyblygrwydd a hygyrchedd dysgu o bell (megis astudio annibynnol, mynediad i adnoddau, a llwybrau dysgu wedi'u personoli).

135 Hysbysir ein cynnig i ddarparu'r Diploma MiAU Rhyngwladol drwy ddefnyddio dulliau dysgu cyfunol gan Bolisi Dulliau Darparu o Bell y Swyddfa Gartref[16] i fyfyrwyr rhyngwladol sy'n astudio ar lefel 6 neu'n uwch, sydd i gael eu gweithredu o fis Medi 2025. Rydym hefyd wedi nodi safbwynt Fisâu a Mewnfudo'r DU, sef bod angen polisi llym am bresenoldeb a chyfranogaeth myfyrwyr ar gyfer cyrsiau ar lefelau 4 a 5 am eu bod yn 'fwy agored i gael eu camddefnyddio' gan 'bobl nad ydynt yn fyfyrwyr go iawn'[17]. Mae'r olaf yn gofyn bod myfyrwyr yn mynychu o leiaf 15 awr o astudio yn y dosbarth yn ystod y dydd bob wythnos, ac yn gosod trothwy presenoldeb o 85%.

136 Yn unol â pholisi'r Swyddfa Gartref ar gyfer lefel 6 neu'n uwch, rydym yn cynnig y dylid caniatáu defnyddio dulliau o ddarparu'r Diploma MiAU Rhyngwladol o bell fel arfer ar gyfer hyd at 20% o amserlen cwrs Diploma MiAU Rhyngwladol, a hyd at 40% lle mae gwerth addysgol amlwg. Byddwn yn cyflwyno canllawiau am ein diffiniadau yn y cyswllt hwn, ac am y ffordd y dylid gwneud y cyfrifiad.

137 Rydym o'r farn y byddai'r dull cyfunol hwn yn galluogi i'r myfyrwyr sy'n astudio i ennill Diploma MiAU Rhyngwladol lefel 3 baratoi ar gyfer y gyfran o ddysgu o bell y gallai eu cwrs israddedig ei ganiatáu ar lefel 6 gan hefyd ddysgu arferion da mewn perthynas â mynychu ac ymgysylltu â dysgu yn y dosbarth ar lefelau 4 a 5.

138 Gallai'r dull dysgu cyfunol hefyd hwyluso profiad trawswladol wedi'i gyfoethogi ar gyfer dysgwyr yn y DU a thramor lle gellir rhannu dysgu ac addysgu mewn ffordd sensitif ar draws gwahanol wledydd i greu cyfleoedd i'r myfyrwyr ddysgu rhagor am eu diwylliant a'u cymdeithas ei gilydd. Rydym yn cydnabod y byddai dull o'r fath yn gostwng cost darparu'r dysgu a'r addysgu,

---

[14] Yma, diffinnir dulliau wyneb yn wyneb fel presenoldeb corfforol y myfyrwyr a'u hathrawon yn yr un gofod dysgu.

[15] www.advance-he.ac.uk/knowledge-hub/blended-learning-0

[16] www.gov.uk/government/publications/student-sponsor-guidance/sponsorship-duties-accessible#courses

[17] https://assets.publishing.service.gov.uk/media/62bc65218fa8f535ae14985a/An_inspection_of_the_immigration_system_as_it_relates_to_the_higher_education_sector_October_2021___March_2022.pdf

ond dylai hyn fod yn ystyriaeth eilaidd ar ôl ystyried y budd i fyfyrwyr y dylai eu haddysg fod wedi'i "seilio yn y byd-eang ond fod yn berthnasol hefyd i'w hardal leol"[18].

139 Ni fydd yn dderbyniol darparu'r Diploma MiAU Rhyngwladol yn gyfan gwbl ar-lein. Er bod QAA yn cydnabod bod dysgu o bell yn gallu bod yn erfyn defnyddiol i hwyluso mynediad i ddysgu ac ehangu cyfranogaeth, rydym o'r farn y dylai technoleg gyfoethogi dysgu ac addysgu a darparu ar gyfer yr amcanion dysgu, nid dweud beth ydyn nhw. Mae hyn yn arbennig o bwysig tra bydd y Diploma MiAU Rhyngwladol yn dod yn sefydledig, ac rydym yn penderfynu'n arbennig pa mor addas yw Manyleb y Diploma, y Cynllun Graddio a chynnwys y Diplomâu unigol a'u hunedau unigol mewn lleoliadau y tu allan i'r DU.

140 Hefyd, rydym yn ymwybodol o'r ffaith nad yw rhai gwledydd yn caniatáu dysgu o bell. Mae'r rhesymau'n gymhleth ac yn cynnwys, fel esiampl:

- 140.1 **Sensoriaeth y rhyngrwyd** - mewn rhai gwledydd, mae'r llywodraeth yn rhoi cyfyngiadau trwm ar y rhyngrwyd ac yn rhwystro rhai gwefannau penodol, gan olygu ei bod hi'n anodd mynd ar blatfformau dysgu ar-lein neu adnoddau addysgol ar y we
- 140.2 **Seilwaith cyfyngedig** - Mewn rhai gwledydd sy'n datblygu, gall mynediad i'r we fod yn gyfyngedig neu'n annibynadwy, gan olygu bod dysgu ar-lein yn heriol
- 140.3 **Ansefydlogrwydd gwleidyddol -** Yn ystod adegau o frwydro neu anniddigrwydd gwleidyddol, gallai mynediad i'r we gael ei rwystro dros dro neu ei gau'n llwyr, gan atal dysgu ar-lein.
- 140.4 **Gweithgareddau twyllodrus** - Mae'r pryderon yn cynnwys cynnydd mewn 'melinau traethodau', twyll tystysgrifau a heriau mewn perthynas â dilysu lleoliad a hunaniaeth dysgwyr.

141 Felly, er mwyn sicrhau bob safonau'n gydradd rhwng gwledydd, ni chaniateir addysgu drwy ddulliau darparu o bell yn unig heblaw pan fydd amgylchiadau'n codi nad oedd modd eu rhagweld (e.e. pandemig) ac y byddent yn amharu ar y ddarpariaeth addysg os na ddefnyddid dulliau o bell, neu er mwyn gwneud addasiad rhesymol i dynnu neu ostwng anfantais oherwydd unrhyw gyflyrau iechyd neu anableddau sydd gan y myfyriwr unigol.

## Cymhwyso Manyleb y Diploma i'r Diploma MiAU Rhyngwladol

142 Mae Manyleb y Diploma Mynediad i AU yn nodi'r gofynion generig ar gyfer ennill y Diploma. Mae hefyd yn nodi cwmpas a natur unrhyw ofynion y gellid eu rhoi yn ychwanegol at y gofynion generig ar gyfer ennill Diplomâu Mynediad i AU penodol.

143 Nod Manyleb y Diploma yw sicrhau bod her academaidd a safonau'r Diploma Mynediad i AU yn gyson ac eglur, a bod cydraddoldeb i fyfyrwyr yn y ffordd y gellir ei gyflawni.
Dyma ei gofynion craidd:

- 143.1 60 credyd, sy'n cynnwys 45 credyd ar lefel 3 a 15 credyd anraddedig ar naill ai lefel 2 neu ar lefel 3, a ddarperir dros 600 o oriau tybiannol o ddysgu[19]

[18] www.hepi.ac.uk/2025/01/21/rethinking-the-financial-challenge-of-english-universities/

[19] Mae un credyd yn cynrychioli'r cyflawniadau dysgu hynny y gellir eu dangos mewn 10 awr dybiannol o ddysgu. Felly, mae'r syniad o 'oriau tybiannol o ddysgu' yn cymryd i ystyriaeth yr holl ddysgu a allai fod yn berthnasol i gyflawni'r deilliannau dysgu, gan gynnwys astudio cyfeiriedig ac astudio'n breifat, gwaith ymarferol a phrosiect, aseiniadau ac amser asesu.

143.2 Dylai pob Diploma gynnwys o leiaf un uned sydd â naill ai 6 neu 9 credyd (graddedig neu anraddedig)

143.3 Uchafswm o 30 credyd a all gynnwys unedau o 6 neu 9 credyd (a gynigir ar ffurf credyd graddedig neu anraddedig, hyd at uchafswm o 30 credyd).

144 Nid ydym yn ystyried bod rheswm penodol dros wyro oddi wrth Fanyleb y Diploma. Ein dadl ni yw bod y fanyleb wedi datblygu dros amser i gynnig strwythur cadarn sy'n caniatáu hyblygrwydd ac yn sicrhau cydraddoldeb fel bod modd i ddarparwyr gynnig cynnwys cwrs sy'n ymateb i anghenion lleol a hefyd ddiogelu'r enw brand Mynediad i AU. Mae'r rhain yn nodweddion a ystyriwn yn fuddiol i gyflwyno ac ymwreiddio'r Diploma yn y tirlun cymwysterau rhyngwladol.

## Cymhwyso'r Cynllun Graddio i'r Diploma MiAU Rhyngwladol

145 Mae'r Diplomâu Mynediad i AU yn cael eu graddio gan ddefnyddio cynllun a luniwyd i ymdopi â hyblygrwydd y cymhwyster, fel bod modd ei ddefnyddio ar gyfer pob Diploma Mynediad i AU, beth bynnag fo ei faes astudio neu ei strwythur. Ein dadl ni yw y bydd y *Cynllun Graddio Mynediad i AU*[20] yn cefnogi cyflwyno'r Diploma MiAU Rhyngwladol i farchnadoedd newydd, o ystyried ei dull trefnus o ddyfarnu graddau a chredydau.

146 Mae'r Cynllun Graddio'n rhoi manylion y gofynion, y pwyntiau cyfeirio a'r rheoliadau asesu sy'n gyffredin i'r Diplomâu ac sy'n diffinio sut y ffurfir y beirniadaethau graddio, yn ogystal â'r broses o ddyfarnu graddau. Mae tair safon raddio sy'n cael eu defnyddio'n gydradd i bob uned ac ar draws yr holl asesiadau - gwybodaeth a dealltwriaeth, sgiliau perthnasol i'r pwnc, a sgiliau trosglwyddadwy.

147 Mae'r Cynllun Graddio'n gosod y safonau yr asesir y myfyrwyr yn eu herbyn i benderfynu ar eu perfformiad, ac felly mae'n erfyn hanfodol i sicrhau - a hefyd dawelu meddwl drwy drefnau safoni asesiadau - gydraddoldeb parhaus â chymwysterau lefel 3 eraill a'r disgwyliadau o ran eu deilliannau (gwelwch baragraffau 121 i 125).

148 Nid ydym yn ystyried bod unrhyw reswm penodol dros wyro oddi wrth y Cynllun Graddio. Ein dadl ni yw bod y cynllun wedi datblygu dros amser i gynnig system gadarn sy'n caniatáu hyblygrwydd ac yn sicrhau cydraddoldeb fel bod y deilliannau graddio'n ddilys ac yn ddibynadwy yn holl feysydd astudio'r Diplomâu a'r amrywiaeth eang o ddulliau asesu a ddatblygwyd drwy arloesi mewn dysgu ac addysgu.

## Y cwestiynau ymgynghorol

**C14.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y gofynion arfaethedig o ran y Saesneg ar gyfer y Diploma MiAU Rhyngwladol?

**C15.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y dulliau darparu cyfunol y bydd Diplomâu MiAU Rhyngwladol yn eu cynnwys?

**C16.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y ffordd y mae'r Fanyleb Diploma gyfredol yn cael ei gweithredu mewn gwledydd tramor?

**C17.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y ffordd y mae'r Cynllun Graddio cyfredol yn cael ei weithredu mewn gwledydd tramor?

[20] https://www.qaa.ac.uk/cy/mynediad-i-au/adnoddau-yn-ymwneud--acirc--mynediad-i-au/cynllun-graddio-mynediad-i-au

**C18.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau eraill am yr adran hon o'r ymgynghoriad?

# Marchnata'r Diploma MiAU Rhyngwladol

149 Mae'r adran hon yn ymwneud â threfniadau mewn perthynas â marchnata'r Diploma MiAU Rhyngwladol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio Nodau Cydymffurfiad â'r Disgrifwyr Pwnc ar gyfer Diplomâu Rhyngwladol, cyn belled â'u bod nhw'n rhoi darnau penodol o wybodaeth am lwybrau cynnydd. Cafodd y rhain eu datblygu gyda myfyrwyr sy'n astudio yn y DU a'u cynnydd mewn golwg, ond gallant gael eu haddasu mewn ffordd sensitif i'w mabwysiadu y tu allan i'r DU. Bydd hi'n hanfodol bwysig bod gwybodaeth glir ar gael i bob rhanddeiliad am lwybrau cynnydd os bydd y nodau cydymffurfiad yn dod yn berthnasol yn rhyngwladol. Mae'r adran hon hefyd yn ystyried defnyddio nodau masnach a nodau geiriau a'r diogelwch y maen nhw'n ei roi.

## Cymhwyso'r Nodau Cydymffurfiad â'r Disgrifwyr Pwnc i'r Diploma MiAU Rhyngwladol

150 Caniateir i Asiantaethau DMiAU a darparwyr Mynediad i AU ddefnyddio'r Nod Cydymffurfiad â'r Disgrifydd Pwnc Mynediad i AU i ddynodi Diplomâu Mynediad i AU sy'n bodloni gofynion Disgrifwyr Pwnc QAA ar gyfer y canlynol:

150.1 y Diploma Mynediad i AU (Meddygaeth)

150.2 y Diploma Mynediad i AU (Nyrsio)

150.3 y Diploma Mynediad i AU (Proffesiynau Iechyd).

151 Diben y disgrifwyr pwnc yw diffinio lleiafswm y cynnwys gofynnol ar gyfer Diplomâu y defnyddir y teitlau neilltuedig uchod ar eu cyfer. Nod y disgrifwyr pwnc yw safoni'r Diplomâu sydd â'r teitlau neilltuedig yn well. Mae'r disgrifwyr pwnc yn rhoi hyder i staff derbyn mewn sefydliadau addysg uwch bod myfyriwr sydd wedi ennill Diploma o'r fath wedi astudio'r cynnwys penodedig, er nad yw'n gwarantu y bydd myfyriwr sydd wedi ennill Diploma o'r fath yn cael mynediad i gwrs addysg uwch.

152 Mae galw cryf am gyrsiau addysg uwch y DU yn y proffesiynau iechyd - daeth 55,810 o fyfyrwyr o dramor yn 2024, a 58,085 yn 2023 (o'i gymharu â 35,985 yn 2015)[21]. Yn ôl data NHS Digital, ym mis Mehefin 2023, dywedodd 264,822 o'r staff yn y GIG eu bod yn ddinasyddion gwlad dramor, o'i gymharu â 220,000 yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn cyfrif am bron i un ymhob pum aelod o staff y GIG a nododd eu cenedligrwydd[22].

153 Mae'r data uchod yn ategu cynnig QAA y dylai Diplomâu sy'n cydymffurfio â'r Disgrifwyr Pwnc fod ar gael i fyfyrwyr rhyngwladol. Felly, rydym yn cynnig caniatáu defnyddio'r Nodau Cydymffurfiad â'r Disgrifwyr Pwnc i hyrwyddo Diplomâu MiAU Rhyngwladol sy'n cydymffurfio â'r disgrifwyr. Dyma fydd y teitlau neilltuedig:

153.1 y Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol (Meddygaeth)

153.2 y Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol (Nyrsio)

153.3 y Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol (Proffesiynau Iechyd).

---

[21] www.iie.org/research-initiatives/project-atlas/explore-data/united-kingdom-2

[22] https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/cbp-7783/

154 Dylai pob Asiantaeth DMiAU nodi'r gwahaniaethau a ganlyn a sicrhau bod gwybodaeth, cyngor ac arweiniad am lwybrau cynnydd i ddarpar fyfyrwyr Diploma MiAU Rhyngwladol yn glir ac yn eglur (yn unol ag Amod Trwyddedu 1.2):

154.1 **Diploma Mynediad i AU** - teitlau ystod o Ddiplomâu sydd ar gael i fyfyrwyr sydd â chyfeiriad cofrestredig yn y DU; a ddyfernir yn y DU ar gyfer mynediad posib i mewn i addysg uwch yn y DU

154.2 **Diploma Mynediad i AU sy'n cydymffurfio â'r Disgrifydd Pwnc** - teitlau tri Diploma penodol sydd ar gael i fyfyrwyr sydd â chyfeiriad cofrestredig yn y DU; a ddyfernir yn y DU ar gyfer mynediad posib i mewn i addysg uwch yn y DU

154.3 **Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol** - teitlau ystod o Ddiplomâu Rhyngwladol sydd ar gael i fyfyrwyr mewn gwlad benodol; a ddyfernir mewn gwlad benodol ar gyfer mynediad posib i mewn i addysg uwch y DU a ddarperir yn y wlad benodol honno neu yn y DU; efallai nad yw'r rheiny'n cael eu cydnabod mewn gwledydd eraill

154.4 **Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol sy'n cydymffurfio â'r Disgrifydd Pwnc** - teitlau tri Diploma Rhyngwladol penodol sydd ar gael i fyfyrwyr mewn gwlad benodol; a ddyfernir mewn gwlad benodol ar gyfer mynediad posib i mewn i addysg uwch y DU a ddarperir yn y wlad benodol honno neu yn y DU; efallai nad yw'r rheiny'n cael eu cydnabod mewn gwledydd eraill

155 Bydd gan Asiantaethau DMiAU yr hyblygrwydd o hyd i ddilysu a chymeradwyo cyrsiau mewn Meddygaeth ac Iechyd nad ydynt yn cydymffurfio â'r Disgrifwyr Pwnc. Fodd bynnag, ni chânt ddefnyddio'r teitlau neilltuedig. Bydd yr hyblygrwydd hwn yn caniatáu i Asiantaethau DMiAU a darparwyr ymateb i amodau'r farchnad leol, rheoliadau lleol a gofynion lleol eraill er mwyn sicrhau bod y Diploma'n gallu paratoi'r myfyrwyr ar gyfer addysg uwch a/neu fyd gwaith yn eu gwledydd cartref yn hytrach na'r DU, neu yn ogystal â'r DU.

## Cymhwyso'r Nodau Masnach i'r Diploma MiAU Rhyngwladol

156 Mae QAA yn ymwybodol o'r ffaith bod rhai cymwysterau'n cael eu cynnig o dan y faner 'rhyngwladol', sy'n debyg i'r Diploma Mynediad i AU Lefel 3, ond nad ydynt yn cael eu rheoleiddio gan QAA. Wrth ddatblygu'r trefniadau hyn, rydym yn ceisio diogelu'r brandiau 'Mynediad i AU' a 'QAA'. Mae rhai o'r trefniadau diogelu sydd gennym yn ein fframwaith yn cynnwys gofynion ynglŷn â defnyddio nodau masnach, a gofynion ynglŷn â gwybodaeth gyhoeddus glir a deunyddiau marchnata clir.

157 Ar hyn o bryd rydym yn ceisio cofrestriad yn y DU am logo, nod adnabod a nodau geiriau'r Diploma MiAU Rhyngwladol. Bydd hyn yn galluogi i'r logo, y nod adnabod a'r nodau geiriau weithredu fel marc gweledol rhyngwladol i adnabod cymwysterau Mynediad i AU a gymeradwywyd o dan delerau'r Cynllun Cydnabod. Bydd gofyn i Asiantaethau DMiAU ddefnyddio'r nodau masnach yn unol â'r gofynion sydd wedi eu nodi yn yr Amodau Rhyngwladol a bod â gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau bod eu darparwyr hefyd yn defnyddio'r nodau masnach rhyngwladol yn ôl y gofynion rheoleiddiol.

158 Mae hawliau eiddo deallusol yn diriogaethol eu natur, sy'n golygu y bydd hawliau a ddyfernir gan Swyddog Eiddo Deallusol y DU yn rhoi diogelwch yn y DU yn unig. Ein bwriad yw cofrestru hefyd gyda Sefydliad Eiddo Deallusol y Byd [World Intellectual Property Organization (WIPO)] i ddiogelu ein hasedau eiddo deallusol yn ehangach, a byddwn yn adolygu'r sylw a roddir yn dibynnu ar yr anghenion wrth i'r Diploma MiAU Rhyngwladol sicrhau cyfran fwy yn y farchnad. Dylai pob Asiantaeth DMiAU nodi y dylai materion yn ymwneud â nodau masnach ac eiddo deallusol dderbyn sylw yn rhan o bob asesiad risg neu bob cynllun credadwy ar gyfer gweithredu mewn gwlad benodol.

## Y cwestiynau ymgynghorol

**C19.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y ffordd y mae'r Nodau Cydymffurfiad â'r Disgrifwyr Pwnc yn cael eu gweithredu mewn gwledydd tramor?

**C20.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am ddiogelu hawliau eiddo deallusol sy'n gysylltiedig â Mynediad i AU (e.e. nodau masnach) mewn gwledydd tramor?

**C21.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau eraill am yr adran hon o'r ymgynghoriad?

# Trefniadau pontio a gweithredu

159 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r cyfnod peilot. Mae llawer o'r wybodaeth hon wedi cael ei chyflwyno'n barod, ond ystyriwn ei bod hi'n bwysig cyflwyno cwestiynau ar yr agwedd hon o'r trefniadau arfaethedig yn arbennig. Rydym hefyd yn ailadrodd y camau y bydd angen i Asiantaethau DMiAU (cyfredol a newydd) eu cymryd i drosglwyddo o dreialu'r Diploma MiAU Rhyngwladol ar gyfer gwlad benodol i wneud cais am drwydded ryngwladol lawn am y tro cyntaf.

160 Mae ein cynlluniau'n ymateb i'r adborth a roddwyd i ni yn ein hymgynghoriad cyhoeddus yn 2024, pan fynegodd yr Asiantaethau DMiAU eu rhwystredigaeth bod y Diploma MiAU Rhyngwladol wedi cymryd amser sylweddol i ddatblygu ac apelio am drefn drosglwyddo mewn camau er mwyn caniatáu iddyn nhw aildrwyddedu ar amser sy'n cyd-fynd â'u blwyddyn fusnes.

## Trosolwg o'r cyfnod peilot

161 Byddwn yn cynnal yr ymgynghoriad hwn dros gyfnod o bum wythnos yn ystod misoedd Mehefin a Gorffennaf 2025. Ar ôl cau'r ymgynghoriad, bydd QAA yn ystyried yr ymatebion i gyd, ac yn gwneud newidiadau i'w chynigion os bydd yn ystyried bod rheswm clir i wneud hynny. Bydd Asiantaethau DMiAU yn derbyn adroddiad am ein hymateb i'r ymgynghoriad a fydd yn cael ei gynnal yn hydref 2025 yn dilyn ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Rheoleiddio a Thrwyddedu Mynediad i AU (Pwyllgor RhThrMiAU) a Bwrdd QAA.

162 Y nod yw bod y cyfnod peilot yn cychwyn yn ystod blwyddyn academaidd 2025-26, ac ar y pwynt hwnnw bydd Asiantaethau DMiAU sydd wedi trosglwyddo i'r trefniadau newydd ar gyfer y DU yn cael eu gwahodd i gyflwyno datganiadau o ddiddordeb, ac yn dilyn hynny gais manylach o fewn blwyddyn galendr.

163 O ddyddiad cymeradwyo'r drwydded, bydd pob Asiantaeth DMiAU sydd â thrwydded ryngwladol yn atebol i'r Trefniadau Monitro (h.y. gweithdrefnau monitro cyffredinol a allai arwain at fonitro manylach ac/neu ymchwilio). Bydd gwybodaeth sy'n deillio o'r monitro cyffredinol a manylach yn hysbysu gwerthusiad y cyfnod peilot, a bydd QAA hefyd, o bryd i'w gilydd, yn trefnu cyfleoedd ychwanegol i Asiantaethau DMiAU rannu eu profiadau gyda ni ac Asiantaethau DMiAU eraill (e.e. mewn grwpiau ffocws, arolygon ar-lein ac ati).

164 Bydd y cyfnod peilot yn cau ar ôl dwy flynedd, a bryd hynny gwneir gwerthusiad terfynol o'r Diploma MiAU Rhyngwladol. Bydd hyn yn hysbysu datblygiad a gwelliant y Cynllun Cydnabod a'r cymhwyster yn y dyfodol ar gyfer ei drwyddedu, ei ddarparu a'i ddyfarnu. Gallai trwyddedau unigol a ddyfernir i Asiantaethau DMiAU yn ystod y cyfnod peilot barhau y tu hwnt i'r dyddiad hwn er mwyn galluogi iddynt gwblhau cyfnod peilot llawn o ddwy flynedd o dan drwyddedau gwlad benodol.

## Y camau nesaf ar ôl y cyfnod peilot

165 Os nad yw'n ymddangos bod risg difrifol neu sylweddol sy'n debygol o effeithio ar ganlyniad gwerthusiad QAA o'r cyfnod peilot, bydd y broses drwyddedu ac ail-drwyddedu'n parhau (yn unol â'r cynlluniau sydd wedi eu nodi yn yr ymgynghoriad hwn) yn ystod y cyfnod gwerthuso er mwyn cynnal parhad gweithredol.

166 Caniateir i unrhyw Asiantaethau DMiAU newydd sy'n mynd i mewn i'r farchnad wneud cais am drwydded ryngwladol wedi i'r cyfnod peilot ddod i ben (dim ond Asiantaethau DMiAU cyfredol sy'n cael cymryd rhan yn y cyfnod peilot). Mae'n rhaid i Asiantaethau DMiAU newydd fod wedi dal trwydded Asiantaeth DMiAU ar gyfer y DU am ddwy flynedd cyn iddynt wneud cais am drwydded ryngwladol. Bydd angen iddyn nhw gyflwyno datganiad cychwynnol o ddiddordeb ar neu ar ôl y dyddiad y daw'r cyfnod peilot i ben, a byddant yn atebol i gyfnod peilot o ddwy flynedd o ddyddiad cymeradwyo'r drwydded ryngwladol.

167 Bydd Asiantaethau DMiAU cyfredol sydd wedi cymryd rhan yn y cyfnod peilot yn dod yn gymwys i wneud cais am adnewyddu eu trwydded (trwydded ryngwladol lawn o dair neu bum mlynedd, yn ddibynnol ar ein hasesiad o risg) wrth iddynt ddynesu at ddiwedd eu cyfnod peilot o ddwy flynedd. Bydd QAA yn cyflwyno rhagor o ganllawiau am y broses adnewyddu a'i hamseriad ar ôl yr ymgynghoriad hwn. Ni fydd ffi am adnewyddu trwydded.

## Y cwestiwn ymgynghorol

**C22.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y ffordd y mae'r Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol yn cael ei weithredu a'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo i mewn i ac allan o'r cyfnod peilot?

**C23.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau eraill am yr adran hon o'r ymgynghoriad?

## Y casgliad

168 Ym misoedd olaf 2021 neu fisoedd cynnar 2022, gwnaethpwyd gwaith datblygu gan QAA oedd yn canolbwyntio ar ffordd bosibl o lansio a datblygu'r Diploma MiAU Rhyngwladol. Yn hydref 2022, aethom ati i rannu dull gyda'r Asiantaethau DMiAU oedd wedi ei seilio ar yr un seilwaith rheoleiddio â'r trefniadau ar gyfer y DU. Fodd bynnag, gwelsom y byddem yn debygol o fod angen blaenoriaethu gwneud newidiadau i'r trefniadau hyn, felly gohiriwyd y gwaith o ddatblygu'r Diploma MiAU Rhyngwladol.

169 Aeth QAA ati i ymgysylltu eto â'r Asiantaethau DMiAU yn haf 2023 er mwyn ceisio deall eu rhesymau'n well am fod eisiau lansio'r Diploma MiAU Rhyngwladol, a rhoddodd yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn 2024 gyfle i ni archwilio cynigion cychwynnol i gyflwyno trwydded ryngwladol am gyfnod peilot. Ar sail y gwaith hwn, rydym wedi datblygu cynnig manylach yr ydym yn ceisio adborth manwl a chynhwysfawr arno erbyn hyn gan y sefydliadau hynny a fydd yn wynebu llawer iawn o'r risg ariannol a'r risg i'r enw da sy'n deillio o weithredu Diploma MiAU Rhyngwladol - sef yr Asiantaethau DMiAU eu hunain.

170 Gellir cyflwyno adborth ar-lein i'r ymgynghoriad hyd 17:00 ar 6 Gorffennaf 2025, ac mae QAA yn bwriadu rhannu ei ymateb yn ystod hydref 2025, gan fwriadu bod Asiantaethau DMiAU yn gwneud cais i gymryd rhan mewn cam peilot o ddwy flynedd a fydd yn cychwyn yn ystod blwyddyn academaidd 2025-26.

# Atodiadau

## Atodiad A: Rhagolwg o gwestiynau'r arolwg ymgynghori

**C1.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y diffiniad a roddwyd o'r Diploma MiAU Rhyngwladol?

**C2.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am ddiben arfaethedig y Diploma MiAU Rhyngwladol?

**C3.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am ddemograffeg arfaethedig y myfyrwyr?

**C4.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau eraill am yr adran hon o'r ymgynghoriad?

**C5.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y cam peilot o ddwy flynedd ar gyfer Asiantaethau DMiAU cyfredol?

**C6.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y cymhwysedd i gael trwydded Asiantaeth DMiAU ryngwladol?

**C7.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y broses o wneud cais am drwydded ryngwladol?

**C8.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am strwythur y ffioedd ar gyfer y drwydded ryngwladol?

**C9.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau eraill am yr adran hon o'r ymgynghoriad?

**C10.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y ffordd y mae'r Amodau Mynediad i AU yn cael eu cymhwyso i weithredoedd rhyngwladol Asiantaethau DMiAU?

**C11.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y ffordd y mae'r Trefniadau Monitro'n cael eu cymhwyso i weithredoedd rhyngwladol Asiantaethau DMiAU?

**C12.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y ffordd y mae'r ymyriadau rheoleiddio'n cael eu cymhwyso i weithredoedd rhyngwladol Asiantaethau DMiAU?

**C13.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau eraill am yr adran hon o'r ymgynghoriad?

**C14.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y gofynion arfaethedig o ran y Saesneg ar gyfer y Diploma MiAU Rhyngwladol?

**C15.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y dulliau darparu cyfunol y bydd Diplomâu MiAU Rhyngwladol yn eu cynnwys?

**C16.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y ffordd y mae'r Fanyleb Diploma gyfredol yn cael ei gweithredu mewn gwledydd tramor?

**C17.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y ffordd y mae'r Cynllun Graddio cyfredol yn cael ei weithredu mewn gwledydd tramor?

**C18.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau eraill am yr adran hon o'r ymgynghoriad?

**C19.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y ffordd y mae'r Nodau Cydymffurfiad â'r Disgrifwyr Pwnc yn cael eu gweithredu mewn gwledydd tramor?

**C20.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am ddiogelu hawliau eiddo deallusol sy'n gysylltiedig â Mynediad i AU (e.e. nodau masnach) mewn gwledydd tramor?

**C21.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau eraill am yr adran hon o'r ymgynghoriad?

**C22.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y ffordd y mae'r Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol yn cael ei weithredu a'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo i mewn i ac allan o'r cyfnod peilot?

**C23.** Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau eraill am yr adran hon o'r ymgynghoriad?

## Atodiad B: Y Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau DMiAU sy'n Gweithredu'n Rhyngwladol

## Cyflwyniad

1 Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch ('QAA') yw'r corff sy'n gyfrifol am reoleiddio'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch ('Mynediad i AU') a'r Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol (y 'Diploma MiAU Rhyngwladol' neu'r 'Diploma Rhyngwladol'), ac mae ei nodau elusennol yn cynnwys y cyfrifoldeb am roi cyngor i'r llywodraethau ynglŷn â'r gydnabyddiaeth a roddir i'r Diploma a'r Diploma Rhyngwladol. Mae QAA yn cofrestru ac yn cynnal nod masnach y logo Mynediad i AU a nod masnach y geiriau Mynediad i AU (yr enw arnynt oll ar y cyd yw'r 'nodau masnach Mynediad i AU'), sef y nodau masnach sy'n gysylltiedig â'r Diploma. Mae QAA yn ceisio diogelu'r Diploma Rhyngwladol hefyd drwy drefniadau diogelu hawlfraint rhyngwladol.

2 I gynnal a chadw'r dulliau a ddefnyddir gan y llywodraethau a sefydliadau addysg uwch i gydnabod y Diploma Rhyngwladol ar gyfer cyllid, mae QAA yn gweithredu ei Chynllun Cydnabod ar gyfer Mynediad i AU (y 'Cynllun Cydnabod'). Mae'r term 'Cynllun Cydnabod' yn cyfeirio at drefniadau QAA ar gyfer cyflawni ei chyfrifoldebau mewn perthynas â'r Diploma Rhyngwladol. Mae hefyd yn cynnwys fframwaith o ofynion sydd wedi eu nodi mewn dogfennau penodol a ddefnyddir gan QAA i ddyfarnu trwydded ryngwladol (y 'Drwydded Ryngwladol') i Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch ('Asiantaethau DMiAU') sy'n caniatáu iddynt ddatblygu, dilysu a chymeradwyo cyrsiau Mynediad i AU Rhyngwladol a dyfarnu Diplomâu Rhyngwladol.

3 Bydd QAA yn dyfarnu Trwydded Ryngwladol i Asiantaeth DMiAU, ac yn caniatáu iddi ei chadw at y dibenion hyn, ar yr amod ei bod yn cytuno i lynu at ofynion QAA mewn perthynas â'r Diploma Rhyngwladol, fel y maen nhw wedi eu nodi yn y dogfennau a ganlyn sy'n ffurfio'r Cynllun Cydnabod:

3.1 **Y Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch sy'n Gweithredu'n Rhyngwladol** (y 'Telerau Rhyngwladol'), sef y rhain, sy'n nodi'r telerau y mae'n rhaid i ddarpar Asiantaeth DMiAU gytuno iddynt er mwyn gweithredu y tu allan i'r DU a chadw ei Thrwydded Ryngwladol; ac

3.2 **Yr Amodau Mynediad i AU Rhyngwladol** (yr 'Amodau Rhyngwladol'), sef y goblygiadau y mae'n rhaid i ddarpar Asiantaeth DMiAU eu cyflawni (neu ddangos ei bod yn gallu eu cyflawni) er mwyn dod yn Asiantaeth DMiAU a pharhau i gadw ei Thrwydded Ryngwladol.

4 Mae'r Amodau'n cynnwys cyfeiriadau at ofynion, disgwyliadau a threfniadau sydd wedi eu nodi mewn dogfennau rheoleiddiol eraill (y 'Dogfennau Rheoleiddiol'), ac wrth fodloni gofynion yr Amodau, disgwylir y bydd yr Asiantaeth DMiAU hefyd yn glynu at y gofynion a'r canllawiau sydd wedi eu nodi yn y dogfennau eraill hyn. Mae'r Dogfennau Rheoleiddiol hyn yn cynnwys:

4.1 **Y trefniadau trwyddedu rhyngwladol**: Mae hyn yn cyfeirio at y trefniadau sydd gan QAA i reoli'r broses o ddyfarnu Trwyddedau Rhyngwladol, eu tynnu yn eu holau a'u hildio, fel y mae wedi ei nodi yn y *Trefniadau ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau DMiAU sy'n Gweithredu'n Rhyngwladol*.

4.2 **Y trefniadau monitro**: Dyma'r trefniadau y mae QAA yn eu defnyddio i fonitro a phenderfynu a yw Asiantaeth DMiAU yn bodloni gofynion y Cynllun Cydnabod, fel y mae wedi ei nodi yn y *Trefniadau Monitro Mynediad i AU*. Mae hyn hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y dulliau y gallai QAA eu defnyddio os bydd ganddi bryderon am gydymffurfiad yr Asiantaeth DMiAU â'r gofynion sydd arni.

4.3 **Y gofynion o ran y cymhwyster**: Mae'r gofynion hyn wedi eu nodi ym *Manyleb y Diploma Mynediad i AU*, y *Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i AU* a'r Disgrifwyr

Pwnc. Mae *Manyleb y Diploma Mynediad i AU* a'r *Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i AU* yn nodi gofynion QAA o ran cynllunio, darparu, asesu a dyfarnu'r Diplomâu. Mae'r Disgrifwyr Pwnc yn nodi'r gofynion o ran cynnwys rhai meysydd astudio penodol. Gyda'i gilydd, mae'r gofynion hyn o ran y cymhwyster yn sicrhau bod y cymhwyster yn gyson, a'i fod yn gyson ar draws yr Asiantaethau DMiAU.

4.4 **Canllawiau**: O bryd i'w gilydd, bydd QAA yn cynhyrchu canllawiau sy'n rhoi rhagor o esboniad a manylion ynglŷn â sut y bydd elfennau penodol o'r Cynllun Cydnabod yn gweithredu neu'n cael eu rhoi ar waith gan QAA. Er enghraifft, i roi esboniad o ba ymddygiad y byddai QAA yn ei ystyried yn ymddygiad sy'n cydymffurfio â'i Thelerau neu ei Hamodau ar gyfer y Drwydded Ryngwladol a pha ymddygiad sydd ddim.

## Telerau Safonol y Drwydded

5 I dderbyn a chadw Trwydded Ryngwladol, mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU gytuno i'r Telerau hyn a dangos ei bod yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion sydd wedi eu nodi yn yr Amodau a'r Dogfennau Rheoleiddiol cysylltiedig.

6 Os bydd Asiantaeth DMiAU yn methu cydymffurfio â'r Telerau hyn a/neu'r Amodau neu unrhyw agwedd arall o'r Cynllun Cydnabod, gallai QAA wneud ymchwiliad.

7 Gallai QAA wneud ymchwiliad i'r Asiantaeth DMiAU neu unrhyw rai o'i Darparwyr os bydd angen, ar unrhyw adeg pan roddir rhybudd rhesymol, am unrhyw reswm dilys. Mae rhesymau o'r fath yn cynnwys (ond heb eu cyfyngu i) amgylchiadau lle mae tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfiad ag unrhyw rai o'r Telerau hyn, neu unrhyw rai o'r meini prawf neu'r dogfennau y cyfeirir atynt yn y Telerau hyn. Gall ymchwiliadau o'r fath ddigwydd ar safleoedd Asiantaethau DMiAU neu Ddarparwyr a gallant arwain at roi gweithdrefnau ar waith i dynnu Trwydded Ryngwladol yr Asiantaeth DMiAU yn ei hôl, neu wneud gweithgareddau eraill, fel y maent wedi eu nodi yn y *Trefniadau Monitro Mynediad i AU*. Mewn perthynas â'r Telerau hyn, mae'r term 'Darparwr' yn cyfeirio at sefydliad sydd wedi mynd i mewn i gontract ag Asiantaeth DMiAU i ddarparu cyrsiau Mynediad i AU Rhyngwladol a ddilysir gan yr Asiantaeth DMiAU honno (p'un ag y darperir y cyrsiau hynny yn y pen draw ai peidio).

8 Rhaid talu ffioedd am unrhyw ymchwiliad neu weithgareddau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r broses gyffredinol o fonitro Asiantaethau DMiAU, fel y mae wedi ei nodi'n fanylach yn y *Trefniadau Monitro Mynediad i AU*.

9 Oni bai ei fod yn nodi'n wahanol, os bydd y Telerau hyn yn gwrthdaro ag unrhyw ddogfen y cyfeirir ati yn y Telerau hyn, dylai'r Telerau hyn gael blaenoriaeth.

## Hunaniaeth, cyfansoddiad a threfniadau llywodraethu

10 Dim ond yr Asiantaethau DMiAU sy'n gweithredu'n unol â'r *Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch* sy'n gymwys i wneud cais am Drwydded Ryngwladol, a'i derbyn, o dan y *Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch sy'n Gweithredu'n Rhyngwladol*. Yn ogystal:

10.1 Mae'n rhaid i Asiantaeth DMiAU fod yn gwmni sydd wedi ei gofrestru yng Nghymru neu Loegr, neu mae'n rhaid iddi fod wedi ei seilio ar gyfansoddiad sy'n eglur ac yn bendant, a bod â dogfennau ffurfiol sy'n rhoi manylion ei hunaniaeth gyfreithiol, ei swyddogaeth(au), ei hamcan(ion) a'i phrif strwythurau llywodraethu, ac mae'n rhaid i'w phrif gyfeiriad fod yn y Deyrnas Unedig.

10.2 Ar y cyd, mae'n rhaid i hunaniaeth gyfreithiol, cyfansoddiad a threfniadau llywodraethu'r Asiantaeth DMiAU sicrhau:

10.3 ei bod yn cael ei diogelu rhag dylanwad gormodol unrhyw un o'i haelodau, neu leiafswm ohonynt; a

10.4 ei gallu i wneud penderfyniadau a gweithredu'n annibynnol fel Asiantaeth DMiAU, fel sy'n ofynnol yn ôl y Telerau hyn a gofynion eraill y Cynllun Cydnabod.

## Telerau'r cytundeb

11 Mae'r Asiantaeth DMiAU yn cytuno y bydd yn:

11.1 parhau i gydymffurfio â'r Telerau hyn;

11.2 cydymffurfio â'r Amodau Rhyngwladol a'r Dogfennau Rheoleiddiol;

11.3 gweithredu yn unol â'r gofynion sydd wedi eu nodi yn y Cynllun Cydnabod, a gofynion eraill o'r fath y gallai QAA eu gosod i Asiantaethau DMiAU o bryd i'w gilydd;

11.4 cyflawni ei chyfrifoldebau fel Asiantaeth DMiAU drwy ei sefydliad ei hun, fel sy'n ofynnol yn ôl yr Amodau Rhyngwladol, a pheidio dirprwyo unrhyw ran o'r cyfrifoldebau hynny i unrhyw gorff arall, yn dilyn cymeradwyaeth QAA o drefniadau'r sefydliad i weithredu'r Drwydded Ryngwladol;

11.5 dilyn, ac yn gallu dangos ei bod wedi dilyn, y gweithdrefnau a nodwyd ganddi yn ei chyflwyniadau ffurfiol i QAA i ddangos ei threfniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiad â'r Amodau Rhyngwladol, y mae QAA wedi eu cymeradwyo drwy'r prosesau o drwyddedu neu fonitro Asiantaethau DMiAU, fel y mae wedi ei nodi yn y *Trefniadau Monitro Mynediad i AU*;

11.6 darparu adnoddau i weithredu'r gweithdrefnau cymeradwy'n llawn sydd wedi eu disgrifio yn ei dogfennaeth ffurfiol neu ei chyflwyniadau ffurfiol i QAA, ac i fodloni gofynion y gallai QAA eu gosod er mwyn cael parhau'r Drwydded Ryngwladol;

11.7 talu ffi flynyddol benodol y mae QAA wedi ei phennu i gyfrannu at gostau cynnal a datblygu'r Cynllun Cydnabod ar gyfer y Diploma Rhyngwladol, fel y mae wedi ei nodi yn y *Trefniadau ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau DMiAU sy'n Gweithredu'n Rhyngwladol*;

11.8 ~~Hysbysu QAA ar unwaith am unrhyw newidiadau arfaethedig ym mherchnogaeth yr Asiantaethau DMiAU ac ym mhob achos o fewn un diwrnod gwaith i'r newid hwnnw~~; rhoi gwybod i QAA am unrhyw newidiadau sylweddol yn strwythur cyfundrefnol yr Asiantaeth DMiAU a allai effeithio ar ei gweithredoedd rhyngwladol;

11.9 ymgynghori â QAA cyn mabwysiadu hunaniaeth gyfreithiol newydd, er mwyn cadarnhau:

- bod yr hunaniaeth newydd yn briodol i gyflawni ei dyletswyddau tuag at y cyhoedd yn rhyngwladol, a
- bod yr hunaniaeth newydd (neu unrhyw drefniadau ychwanegol eraill) yn sicrhau bod rhwymedigaeth yr Asiantaeth DMiAU yn bodoli ar wahân i rwymedigaethau aelod-sefydliadau neu sefydliadau partner a'u cynrychiolwyr unigol;

11.10 cyfranogi yng ngweithdrefnau QAA, a chydweithredu â nhw, ar gyfer trwyddedu a monitro Asiantaethau DMiAU, fel y mae wedi eu nodi yn y *Trefniadau Monitro Mynediad i AU*, gan gynnwys cyflwyno adroddiadau a data, yn unol â'r gofynion

a osodir gan QAA; ac yn cydymffurfio â gofynion QAA o ran parhad ei Thrwydded Ryngwladol;

11.11 peidio â chymryd unrhyw gamau, na gwneud unrhyw hepgoriadau, sy'n rhoi, ym marn resymol QAA, enw drwg i'r Diploma, y Diploma Rhyngwladol, y Cynllun Cydnabod neu QAA ei hun, neu sy'n niweidio ewyllys da neu enwau da'r nod masnach Mynediad i AU a'r nod masnach Mynediad i AU Rhyngwladol;

11.12 defnyddio, a sicrhau mai dim ond Darparwyr cymwys sy'n defnyddio, y nodau masnach Mynediad i AU Rhyngwladol yn y ffurfiau a'r ffyrdd a ganiateir yn ôl y *Gofynion ar gyfer defnyddio'r nodau masnach Mynediad i AU* a osodir gan QAA (a allai gael eu diwygio o bryd i'w gilydd) ac yn cydymffurfio, ac yn sicrhau bod y darparwyr yn cydymffurfio, â holl ddarpariaethau eraill y ddogfen honno ~~y meini prawf trwyddedu~~ a'r Amodau Trwyddedu Rhyngwladol wrth ddefnyddio'r nod masnach Mynediad i AU a'r nod masnach Mynediad i AU Rhyngwladol;

11.13 peidio is-drwyddedu, trosglwyddo, neu ollwng mewn unrhyw ffordd arall, unrhyw hawliau a ganiateir i'r Asiantaeth DMiAU o dan y Telerau hyn i unrhyw drydydd parti, heblaw i Ddarparwyr cymwys yn unol â'r Telerau hyn, a hefyd yn cydnabod bod unrhyw hawliau ac ewyllys da mewn perthynas â'r nodau masnach Mynediad i AU yn eiddo i QAA ac na fydd yr Asiantaeth DMiAU, nac unrhyw Ddarparwr, yn cael unrhyw hawliau am y nodau masnach Mynediad i AU Rhyngwladol heblaw'r rheiny sydd wedi eu nodi'n eglur yn y Telerau hyn; a

11.14 gwneud arolygiad neu archwiliad unrhyw bryd, gyda rhybudd rhesymol, yn unrhyw un neu fwy o'r Darparwyr, os bydd ef neu QAA yn credu'n rhesymol nad yw'r Darparwr yn defnyddio'r nodau masnach Mynediad i AU yn unol â gofynion unrhyw ran o'r Cynllun Cydnabod, gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i'r canllawiau ar gyfer defnyddio'r nodau masnach Mynediad i AU Rhyngwladol.

## Diffyg cydymffurfiad

12 Gallai QAA gymryd y camau a ganlyn os bydd yn dod i'r casgliad, yn ei barn resymol hi, bod diffyg cydymffurfiad, neu risg o ddiffyg cydymffurfiad, gydag unrhyw ofyniad o'r Telerau hyn, yr Amodau a/neu'r Cynllun Cydnabod:

12.1 cyflwyno hysbysiad i Asiantaeth DMiAU sy'n gofyn i'r Asiantaeth DMiAU gymryd camau gweithredu penodol i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfiad, neu risg o ddiffyg cydymffurfiad;

12.2 gorfodi unrhyw amodau penodol ar Asiantaeth DMiAU y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â nhw, a allai ofyn i'r Asiantaeth DMiAU gymryd camau gweithredu penodol, neu ei hatal rhag cymryd camau penodol; a/neu

12.3 orfodi sancsiynau ffurfiol ar yr Asiantaeth DMiAU fel bod cyfyngiad ar y gweithgareddau y gall Asiantaeth DMiAU eu gwneud o dan ei Thrwydded Ryngwladol, neu wahardd ei Thrwydded Ryngwladol neu ei thynnu yn ei hôl.

13 Os bydd QAA wedi cymryd unrhyw gamau sydd wedi eu nodi uchod yng nghymal 12 y Telerau, ac os bydd yr Asiantaeth DMiAU wedi methu cydymffurfio â'r camau, gallai QAA gymryd camau pellach a chyflwyno hysbysiad yn ôl cymal 14 isod er mwyn terfynu Trwydded Ryngwladol yr Asiantaeth DMiAU, yn unol â'r prosesau sydd wedi eu disgrifio yn y *Trefniadau ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau DMiAU sy'n Gweithredu'n Rhyngwladol*.

14 Gallai QAA derfynu'r Drwydded Ryngwladol ar unwaith unrhyw bryd drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r Asiantaeth DMiAU:

14.1 os bydd yr Asiantaeth DMiAU yn torri unrhyw rai o'r Telerau hyn neu'r Amodau Rhyngwladol ac, ar yr amod bod modd unioni'r torri telerau neu amodau, bod yr Asiantaeth DMiAU wedi methu unioni'r toriad hwn o fewn 30 diwrnod i ddyddiad yr hysbysiad gan QAA sy'n gofyn iddi gymryd camau unioni o'r fath;

14.2 os bydd yr Asiantaeth DMiAU yn torri unrhyw rai o'r Telerau hyn neu'r Amodau Rhyngwladol, ac os na fydd hi'n bosibl unioni'r torri telerau neu amodau;

14.3 os gorchmynnir neu os gwneir penderfyniad i ddirwyn i ben yr Asiantaeth DMiAU (heblaw er mwyn cyfuno neu adlunio solfent) neu os bydd yr Asiantaeth DMiAU yn dod yn atebol i orchymyn gweinyddu, neu os bydd derbynnydd neu dderbynnydd gweinyddol wedi eu penodi ar unrhyw ran o eiddo'r Asiantaeth DMiAU, neu os bydd unrhyw barti sydd â llyffethair ar unrhyw ran o'i heiddo'n cymryd meddiant ohono;

14.4 os bydd yr Asiantaeth DMiAU yn methu cydymffurfio â chymal 11.9 y Telerau drwy gychwyn hunaniaeth gyfreithiol newydd heb lynu at weithdrefnau perthnasol QAA;

14.5 os bydd yr Asiantaeth DMiAU yn methu cydymffurfio â'r *Gofynion ar gyfer defnyddio'r nodau masnach Mynediad i AU* a osodwyd gan QAA, neu os cafwyd niwed neu mae'n debygol y bydd niwed i enw da QAA am fod yr Asiantaeth DMiAU wedi gwneud unrhyw weithred neu hepgoriad;

14.6 os bydd risg, ym marn resymol QAA, drwy'r modd y mae'r Asiantaeth DMiAU yn defnyddio'r nodau masnach Mynediad i AU Rhyngwladol, y gallai'r nod masnach Mynediad i AU neu'r nod masnach Mynediad i AU Rhyngwladol golli eu gwerth oherwydd eu defnydd neu gymhwysiad generig; neu fod y nod masnach Mynediad i AU Rhyngwladol wedi cael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n awgrymu y byddai QAA wedi cymeradwyo gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â'r Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol; ac/neu

14.7 os bydd ei ddefnydd gan unrhyw rai o Ddarparwyr yr Asiantaeth DMiAU yn achosi, neu'n debygol o achosi, un o'r canlyniadau sydd wedi eu nodi uchod yng nghymalau 14.5 a 14.6 y Telerau, ac os bydd QAA wedi rhoi gwybod i'r Asiantaeth DMiAU am amgylchiadau o'r fath, ac os bydd yr Asiantaeth DMiAU wedi methu cymryd camau unioni priodol o fewn amser rhesymol ar ôl cael eu rhybuddio i wneud hynny.

14.8 os bydd trwydded yr Asiantaeth DMiAU ar gyfer y DU yn cael ei therfynu neu ei thynnu yn ei hôl gan yr Asiantaeth DMiAU ei hun, neu o ganlyniad i ymyriad QAA yn unol ag adran 17 y *Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch.*

15 Os bydd QAA yn terfynu'r Drwydded Ryngwladol yn unol â chymal 14 y Telerau, dylid dilyn y broses sydd wedi ei disgrifio yn y *Trefniadau ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau DMiAU sy'n Gweithredu'n Rhyngwladol*, sydd hefyd yn nodi'r canlyniadau perthnasol.

## Atodiad C: Meysydd arfaethedig ar gyfer casglu data

Rydym yn cynnig ychwanegu'r meysydd a ganlyn (wedi'u dangos mewn coch) at ein casgliad arferol o ddata ar gyfer y Diploma MiAU Rhyngwladol i fonitro hygyrchedd ac estyniad, ac i benderfynu a oes anfantais mewn perthynas â lle.

4: Gwlad
5: Lleoliad_Astudio
15: Preswylfa_Myfyriwr
18: Statws_Cyflogaeth
19: Ffynhonnell_Arian

| Rhif y maes | Disgrifiad o'r maes | Canllaw | Y math o faes data |
|---|---|---|---|
| 1. | Asiantaeth DMiAU | Rhowch enw'r Asiantaeth DMiAU. Dylai hwn ymddangos ar bob rhes o'r ffurflen gyflwyno lle cofnodir data am y myfyriwr. | Testun |
| 2. | Rhif Myfyriwr | Rhowch rif adnabod unigryw ar gyfer pob myfyriwr. Gall hwn fod yn:<br>• rhif cofnod y myfyriwr[23] o gronfa ddata'r Asiantaeth DMiAU; NEU<br>• rif dilyniannol.<br>Dylai hwn ymddangos ar bob rhes o'r ffurflen gyflwyno lle cofnodir data am y myfyriwr.<br>**Nodwch:**<br>Dylid cynnwys y myfyrwyr hynny sydd â mwy nag un cofrestriad gyda'r Asiantaeth DMiAU ar y ffurflen gyflwyno data. Mae'n rhaid i bob cofnod ar y ffurflen gyflwyno gael ei rhif unigryw; gallai hyn adlewyrchu rhif cofnod y myfyriwr sy'n deillio o rif cofrestru'r myfyriwr a rhif cofnod y cwrs.<br>Mae'n rhaid cyflwyno cyfanswm o 60 credyd ar gyfer pob rhif cofnod myfyriwr. | Testun |
| 3. | Darparwr | Rhowch enw'r darparwr. Dylai hwn ymddangos ar bob rhes o'r ffurflen gyflwyno lle cofnodir data am y myfyriwr. | Testun |
| 4. | Gwlad | Rhowch y wlad y mae pob darparwr yn gweithredu ynddi. Dylai hwn ymddangos ar bob rhes o'r ffurflen gyflwyno lle cofnodir data am y myfyriwr. | Testun |
| 5. | Lleoliad Astudio | Rhowch y lleoliad astudio gan ddefnyddio'r meysydd isod.<br>• Lleoliad y prif ganolfan neu'r unig ganolfan<br>• Lleoliad y ganolfan ranbarthol<br>• Lleoliad canolfan arall<br>Dylai hwn ymddangos ar bob rhes o'r ffurflen gyflwyno lle cofnodir data am y myfyriwr. | |

[23] Ar gyfer sefydliadau sy'n defnyddio'r system 'Quartz', gallai hyn gyfateb â rhif cofnod y myfyriwr sy'n deillio o rif cofrestru'r myfyriwr a rhif cofnod y cwrs.

| Rhif y maes | Disgrifiad o'r maes | Canllaw | Y math o faes data |
|---|---|---|---|
| 6. | Teitl Diploma | Rhowch deitl y Diploma. Dylai hwn ymddangos ar bob rhes o'r ffurflen gyflwyno lle cofnodir data am y myfyriwr.<br>Ni ddylai'r maes hwn gynnwys y geiriau 'Diploma Mynediad i AU', 'Diploma Addysg Uwch' nac unrhyw gromfachau. Er enghraifft, dylid rhoi 'Nyrsio' yn y maes hwn am Ddiploma Mynediad i AU (Nyrsio). | Testun |
| 7. | Maes Sector Astudio Haen 1 | Rhowch faes y sector astudio haen 1 mewn fformat rhifol yn unig.<br>Mae'r canlynol yn dynodi prif ddyraniadau maes y sector astudio haen 1 ar gyfer Diplomâu Mynediad i AU<br>1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13, 15<br>Dylai hwn ymddangos ar bob rhes o'r ffurflen gyflwyno lle cofnodir data am y myfyriwr.<br>Dylid defnyddio'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad 'Dyfarniadau fesul Asiantaeth DMiAU, darparwr a statws' sydd ar gael ar wefan adroddiad yr Asiantaeth DMiAU. | Testun |
| 8. | Maes Sector Astudio Haen 2 | Rhowch faes y sector astudio haen 2 mewn fformat rhifol yn unig.<br>Dim ond y cofnodion a ganlyn sy'n dderbyniol ar gyfer maes y sector astudio haen 2:<br>1.1, 1.2, 1.3, 1.4, 1.5,<br>2.1, 2.2,<br>3.1, 3.2, 3.3, 3.4,<br>4.1, 4.2, 4.3,<br>5.1, 5.2, 5.3,<br>6.1, 6.2,<br>7.1, 7.2, 7.3, 7.4,<br>8.1, 8.1,<br>9.1, 9.2, 9.3, 9.4,<br>10.1, 10.2, 10.3, 10.4,<br>11.1, 11.2, 11.3, 11.4, 11.5,<br>12.1, 12.2, 12.3,<br>13.1, 13.2,<br>15.1, 15.2, 15.3, 15.4, 15.5<br>Dylai hwn ymddangos ar bob rhes o'r ffurflen gyflwyno lle cofnodir data am y myfyriwr.<br>Dylid defnyddio'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad 'Dyfarniadau fesul Asiantaeth DMiAU, darparwr a statws' sydd ar gael ar wefan adroddiad yr Asiantaeth DMiAU. | Testun |
| 9. | Nod Dysgu<br>(Mae cronfa ddata QAA yn | Rhowch y nod dysgu. Dylai hwn ymddangos ar bob rhes o'r ffurflen gyflwyno lle cofnodir data am y myfyriwr. | Testun |

| Rhif y maes | Disgrifiad o'r maes | Canllaw | Y math o faes data |
|---|---|---|---|
| | dyrannu nod dysgu'n ddiofyn i deitlau Diploma a ychwanegir gan Asiantaethau DMiAU) | Os nad yw'r rhain wedi eu dal ar gronfa ddata'r Asiantaeth DMiAU, dylai'r Asiantaeth DMiAU lenwi'r ffurflen gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad 'Dyfarniadau fesul Asiantaeth DMiAU, darparwr a statws' sydd ar gael ar wefan adroddiad yr Asiantaeth DMiAU. | |
| 10. | Dyddiad Cychwyn Dysgwr | Rhowch y dyddiad cychwyn mewn fformat **dd/mm/bbbb** yn unig. Dylai hwn ymddangos ar bob rhes o'r ffurflen gyflwyno lle cofnodir data am y myfyriwr.<br>Dylid tynnu stampiau dyddiad y gronfa ddata cyn cyflwyno'r data i QAA.<br>Rhowch gofnodion mewn fformat DYDDIAD yn y llyfr gwaith MS Excel. | **Dyddiad** |
| 11. | Dyddiad Gorffen Dysgwr | Rhowch y dyddiad gorffen mewn fformat **dd/mm/bbbb** yn unig. Dylai hwn ymddangos ar bob rhes o'r ffurflen gyflwyno lle cofnodir data am y myfyriwr.<br>Os nad yw'n hysbys beth yw'r dyddiad gorffen, dylai'r Asiantaethau DMiAU roi'r canlynol:<br>• 31 Gorffennaf yn y flwyddyn adrodd i fyfyrwyr sydd wedi cwblhau neu dynnu allan yn ystod y flwyddyn adrodd, h.y. 31 Gorffennaf 2023<br>• 31 Gorffennaf yn y flwyddyn academaidd nesaf i ddysgwyr sy'n parhau â'u hastudiaethau, h.y. 31 Gorffennaf 2024<br>Dylid tynnu stampiau dyddiad y gronfa ddata cyn cyflwyno'r data i QAA.<br>Rhowch gofnodion mewn fformat DYDDIAD yn y llyfr gwaith MS Excel. | **Dyddiad** |
| 12. | Cefndir Ethnig | Rhowch gefndir ethnig y dysgwyr gan ddefnyddio'r meysydd y mae QAA wedi eu pennu a'u rhannu gyda'r Asiantaethau DMiAU.<br>• Arabaidd<br>• Asiaidd - Bangladeshaidd<br>• Asiaidd - Tsieineaidd<br>• Asiaidd - Philipino<br>• Asiaidd - Indiaidd<br>• Asiaidd - Pacistanaidd<br>• Asiaidd - unrhyw gefndir Asiaidd arall<br>• Du - Affricanaidd<br>• Du - Caribïaidd<br>• Du - unrhyw gefndir arall<br>• Grŵp aml-ethnig - Asiaidd a Gwyn<br>• Grŵp aml-ethnig - Affricanaidd Du a Gwyn | Testun |

| Rhif y maes | Disgrifiad o'r maes | Canllaw | Y math o faes data |
|---|---|---|---|
| | | • Grŵp aml-ethnig - Caribïaidd Du a Gwyn<br>• Grŵp aml-ethnig - unrhyw gefndir aml-ethnig arall<br>• Gwyn - Prydeinig<br>• Gwyn - Gwyddelig<br>• Gwyn - unrhyw gefndir gwyn arall<br>• Cefndir ethnig arall<br>• Anhysbys<br>• Heb ei ddatgelu<br>Dylai hwn ymddangos ar bob rhes o'r ffurflen gyflwyno lle cofnodir data am y myfyriwr. | |
| 13. | Rhywedd | Rhowch y rhywedd a nodwyd gan y dysgwr gan ddefnyddio'r meysydd isod:<br>• Gwryw<br>• Benyw<br>• Arall<br>• Anhysbys<br>• Heb ei ddatgelu<br>Dylai hwn ymddangos ar bob rhes o'r ffurflen gyflwyno lle cofnodir data am y myfyriwr. | Testun |
| 14. | Band Oed | Rhowch oed y dysgwr gan ddefnyddio'r meysydd isod:<br>• Iau na 17 oed<br>• 17-19<br>• 20-24<br>• 25-29<br>• 30-34<br>• 35-39<br>• 40-44<br>• 45-49<br>• 50+<br>• Anhysbys<br>Dylai hwn ymddangos ar bob rhes o'r ffurflen gyflwyno lle cofnodir data am y myfyriwr. | Testun |
| 15. | Preswylfa Myfyriwr | Rhowch y rhanbarth neu'r ardal lle mae'r myfyriwr yn preswylio.<br>Dylai hwn ymddangos ar bob rhes o'r ffurflen gyflwyno lle cofnodir data am y myfyriwr. | Testun |

| Rhif y maes | Disgrifiad o'r maes | Canllaw | Y math o faes data |
|---|---|---|---|
| 16. | Anfantais[24] | Gan ddefnyddio'r meysydd isod, rhowch wybodaeth yn ymwneud â statws ardal dan anfantais y dysgwr:<br>• anfantais<br>• heb anfantais<br>• Anhysbys<br>• Heb ei ddatgelu<br>Dylai hwn ymddangos ar bob rhes o'r ffurflen gyflwyno lle cofnodir data am y myfyriwr. | Testun |
| 17. | Anawsterau Dysgu ac Anableddau | Gan ddefnyddio'r meysydd isod, rhowch wybodaeth am unrhyw anawsterau dysgu ac/neu anableddau sydd gan y dysgwr:<br>• anableddau<br>• anawsterau dysgu<br>• anawsterau dysgu ac anableddau<br>• heb unrhyw anawsterau dysgu neu anableddau<br>• Anhysbys<br>• Heb ei ddatgelu<br>Dylai hwn ymddangos ar bob rhes o'r ffurflen gyflwyno lle cofnodir data am y myfyriwr. | Testun |
| 18. | Statws Cyflogaeth | Rhowch statws cyflogaeth y dysgwr ar ddechrau eu rhaglen astudio gan ddefnyddio'r meysydd isod:<br>• Yn gyflogedig (llawn amser)<br>• Yn hunangyflogedig (llawn amser)<br>• Yn gyflogedig (rhan amser)<br>• Yn hunangyflogedig (rhan amser)<br>• Wedi ymddeol<br>• Yn ddi-waith<br>• Anhysbys<br>• Heb ei ddatgelu | Testun |
| 19. | Ffynhonnell Arian | Nodwch sut mae'r myfyriwr wedi ariannu eu Diploma MiAU Rhyngwladol gan ddefnyddio'r meysydd isod:<br>• Hunan-ariannu<br>• Bwrsariaeth (canolfan) | Testun |

[24] Dylai'r Asiantaethau DMiAU benderfynu ar y statws anfantais gan ddefnyddio'r data a gasglwyd gan y myfyrwyr, a rhoi ystyriaeth benodol i: bobl sy'n wynebu hiliaeth, pobloedd frodorol a lleiafrifoedd ethnig, pobl sydd â moddion economaidd cyfyngedig, pobl ag anableddau, menywod, pobl LHDTC+, pobl sydd wedi cael eu dadleoli'n orfodol, pobl o leoliadau anghysbell a/neu wledig. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd casglu data am anfantais ar gyfer cymwysterau'r DU a chymwysterau rhyngwladol, ond rydym yn cydnabod y cymhlethdod mae hyn yn ei greu i Asiantaethau DMiAU a darparwyr yng nghyd-destun y gwahanol ddulliau a rheoliadau yn y gwledydd. Yn y tymor byr (h.y. yn ystod y cyfnod peilot i ddechrau), bydd yr Asiantaethau DMiAU yn cael eu hannog i gasglu a chyflwyno'r data hwn lle bo modd.

| Rhif y maes | Disgrifiad o'r maes | Canllaw | Y math o faes data |
|---|---|---|---|
| | | • Nawdd (unigolyn/elusen/cwmni)<br>• Dim ffi<br>• Anhysbys<br>• Heb ei ddatgelu<br>Dylai hwn ymddangos ar bob rhes o'r ffurflen gyflwyno lle cofnodir data am y myfyriwr. | |
| 20. | Statws Cwblhad | Rhowch statws cwblhad y dysgwr gan ddefnyddio'r meysydd isod:<br>• yn parhau<br>• wedi tynnu allan<br>• wedi cwblhau<br>• wedi trosglwyddo i nod dysgu newydd<br>• wedi cymryd egwyl o ddysgu<br>Dylai hwn ymddangos ar bob rhes o'r ffurflen gyflwyno lle cofnodir data am y myfyriwr.<br>**Diffiniadau**:<br>**Yn parhau** = myfyrwyr nad ydynt wedi cwblhau eu cwrs astudio ac sydd wedi nodi y byddent yn dychwelyd i gwblhau'r cwrs yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf.<br>**Wedi tynnu allan** = myfyrwyr nad ydynt wedi cwblhau eu cwrs astudio, nad ydynt bellach yn mynychu dosbarthiadau ac y mae darparwr y cwrs wedi eu tynnu nhw allan, neu fyfyrwyr sydd wedi dweud na fyddant yn dychwelyd i gwblhau eu hastudiaethau yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf.<br>Lle mae myfyriwr wedi ei nodi fel un sydd wedi tynnu allan, mae'n rhaid i'r maes 'Dyddiad_Gorffen_Dysgwr' nodi dyddiad gorffen yn ystod y flwyddyn adrodd. Os nad yw'n hysbys beth yw'r dyddiad gorffen, dylai'r Asiantaethau DMiAU roi 31 Gorffennaf yn y flwyddyn adrodd i fyfyrwyr sydd wedi cwblhau neu dynnu allan yn ystod y flwyddyn adrodd.[25]<br>**Wedi cwblhau** = myfyrwyr sydd wedi cwblhau eu cwrs astudio.<br>**Wedi trosglwyddo i nod dysgu newydd** = myfyrwyr sydd wedi trosglwyddo'n ffurfiol i nod dysgu arall (bydd hyn yn berthnasol i fyfyrwyr a gyllidir yn gyhoeddus yn Lloegr yn unig).<br>**Wedi cymryd egwyl o ddysgu** = myfyrwyr sydd wedi derbyn caniatâd swyddogol i gael egwyl o'u dysgu, ac maent wedi ei gymryd (gallai hyn fod yn berthnasol yn bennaf i fyfyrwyr a gyllidir yn gyhoeddus). | Testun |

[25] Mae QAA yn ymwybodol o'r ffaith bod rhai Asiantaethau DMiAU yn cadw data am gofrestriad myfyrwyr am gyfnod penodol ar ôl i'r myfyriwr adael y cwrs er mwyn caniatáu iddyn nhw ail ymuno yn ddiweddarach. Dylai pob myfyriwr sy'n perthyn i'r categori hwn nad ydynt yn weithredol yn ystod y cyfnod adrodd fod yn fyfyrwyr wedi eu tynnu allan yn yr ystadegau a roddir i QAA.

| Rhif y maes | Disgrifiad o'r maes | Canllaw | Y math o faes data |
|---|---|---|---|
| 21. | Cyrchnod | Dyma'r cofnodion sy'n dderbyniol yn y gronfa ddata ystadegol:<br>• Parhau'r rhaglen gyfredol<br>• Cyrchnod anhysbys<br>• Cyflogaeth<br>• Addysg bellach (mewn sefydliad addysg bellach neu addysg uwch) mewn gwlad y tu allan i'r DU<br>• Addysg bellach (mewn sefydliad addysg bellach neu addysg uwch) yn y DU<br>• Addysg uwch (mewn sefydliad addysg bellach neu addysg uwch) mewn gwlad y tu allan i'r DU<br>• Addysg uwch (mewn sefydliad addysg bellach neu addysg uwch) yn y DU<br>• Arall<br>• Wedi tynnu allan<br>Dylai'r meysydd data hyn ymddangos ar bob rhes o'r ffurflen gyflwyno lle cofnodir data am y myfyriwr. | Testun |
| 22. | Cyflawniad | Rhowch statws cyflawniad y dysgwr gan ddefnyddio'r meysydd isod:<br>• cyflawnwyd<br>• yn parhau<br>• dim cyflawniad<br>• cyflawniad rhannol<br>Dylai hwn ymddangos ar bob rhes o'r ffurflen gyflwyno lle cofnodir data am y myfyriwr. | Testun |
| 23. | Teitl Uned | Rhowch deitlau pob un o'r unedau y mae'r myfyriwr wedi cofrestru ar eu cyfer. | Testun |
| 24. | Gwerth Credyd | Rhowch werth credyd yr uned benodol. Dim ond y cofnodion a ganlyn mewn fformat rhifol sy'n dderbyniol ar gyfer gwerth credyd:<br>3, 6, 9<br>**Ni ddylai'r maes hwn gynnwys y gair 'credyd'.** Er enghraifft, dylid rhoi'r rhif '3' yn unig am uned o 3 chredyd. | Testun |
| 25. | Lefel | Rhowch lefel yr uned benodol. Dim ond y cofnodion a ganlyn mewn fformat rhifol sy'n dderbyniol ar gyfer gwerth credyd:<br>2, 3<br>**Ni ddylai'r maes hwn gynnwys y gair 'lefel'.** Er enghraifft, dylid rhoi'r rhif '2' yn unig am uned ar lefel 2. | Testun |
| 26. | Gradd | Rhowch radd yr **uned** ar gyfer pob uned benodol. Dim ond y cofnodion a ganlyn mewn llythrennau sy'n dderbyniol ar gyfer gradd yr **uned**: | Testun |

| Rhif y maes | Disgrifiad o'r maes | Canllaw | Y math o faes data |
|---|---|---|---|
| | | • Cyflawnwyd<br>• Pasio<br>• Teilyngdod<br>• Rhagoriaeth<br>• Heb gyflawni | |
| 27. | Dyddiad Tystysgrif | Rhowch ddyddiad y dystysgrif mewn fformat **dd/mm/bbbb** yn unig. Dylai'r data hwn ymddangos ar bob rhes o'r ffurflen gyflwyno lle mae cyflawniad wedi ei ardystio, yn erbyn pob cofnod myfyriwr.<br>Dylid tynnu stampiau dyddiad y gronfa ddata cyn cyflwyno'r data i QAA.<br>Rhowch gofnodion mewn fformat DYDDIAD yn y llyfr gwaith MS Excel. | **Dyddiad** |

Cyhoeddwyd ar 2 Mehefin 2025

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2025
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

+44 (0)1452 557 000
www.qaa.ac.uk